Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion annibynnol

o Fedi 2019

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| Diben y llawlyfr arweiniad | 1 |
| Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu ysgolion annibynnol | 1 |
| Darpariaeth y blynyddoedd cynnar | 2 |
| **Rhan 1: Trefniadau arolygu** | **2** |
| Cyflwyniad | 2 |
| Egwyddorion arolygu | 2 |
| Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr | 3 |
| Disgwyliadau darparwyr | 3 |
| Materion iechyd, diogelwch a lles | 4 |
| Ymateb i honiad ynghylch diogelu | 4 |
| Dull arolygu | 4 |
| Yr Ystafell Arolygu Rithwir | 5 |
| Y tîm arolygu | 5 |
| Cysylltu â'r ysgol cyn yr arolygiad | 5 |
| Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm | 6 |
| Yn ystod yr arolygiad | 7 |
| Bodloni gofynion statudol | 10 |
| Ar ôl yr arolygiad | 10 |
| Sicrhau ansawdd arolygiadau | 11 |
| **Rhan 2: Meysydd arolygu a gofynion adrodd** | **12** |
| Y Fframwaith Arolygu Cyffredin | 12 |
| Llunio barnau | 13 |
| Ynglŷn â'r ysgol | 13 |
| Crynodeb | 14 |
| Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru | 14 |
| Argymhellion | 14 |
| Beth sy'n digwydd nesaf? | 14 |
| **Meysydd arolygu** | **14** |
| 1 Safonau | 15 |
| 2 Lles ac agweddau at ddysgu | 17 |
| 3 Addysgu a phrofiadau dysgu | 19 |
| 4 Gofal, cymorth ac arweiniad | 23 |
| 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth | 26 |
| Sail dystiolaeth yr arolygiad | 28 |
| Ffocws thematig | 28 |
| **Atodiad 1: Arweiniad ar y rheoliadau ar gyfer cofrestru i ysgolion annibynnol** | **29** |

# Cyflwyniad

## Diben y llawlyfr arweiniad

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r ffordd y bydd yr arolygiaeth yn cynnal arolygiadau o ysgolion annibynnol o Fedi 2017 ymlaen. Mae'n amlinellu'r trefniadau arolygu ar gyfer ysgolion annibynnol ac yn cynnig arweiniad i arolygwyr ar lunio barnau arolygu.

Pan fydd yr arolygiad yn nodi pryderon pwysig mewn perthynas â safonau, ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant neu arweinyddiaeth a rheolaeth, bydd yr arolygiaeth yn trefnu cynnal gweithgarwch dilynol yn yr ysgol i gefnogi gwelliant. Mae arweiniad ar y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ar gael ar wefan Estyn.

Gall ysgolion annibynnol ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau yn gweithio a'u helpu i gryfhau eu prosesau hunanwerthuso a gwella eu hunain.

Mae rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar gael ar wefan yr arolygiaeth, sef www.estyn.llyw.cymru

## Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu ysgolion cynradd

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu rheoli gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni'r safon briodol yn y meysydd canlynol:

- ansawdd yr addysg a ddarperir
- datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion
- lles, iechyd a diogelwch y disgyblion
- addasrwydd perchnogion[1] a staff
- y safle a'r adeiladau
- y wybodaeth a ddarperir gan yr ysgol
- y modd y mae ysgolion yn ymdrin â chwynion

Mae'r arweiniad hwn yn rhoi mwy o fanylion am y safonau hyn. Mae'n amlinellu'r modd y bydd yr arolygiaeth yn barnu cydymffurfiad ysgol o ran bodloni'r safonau.

Yn ei rôl fel yr awdurdod cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol yng Nghymru, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar unrhyw adeg:

- ofyn i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) arolygu unrhyw ysgol gofrestredig, neu sicrhau ei bod yn cael ei harolygu gan un arolygydd cofnodol neu fwy
- trefnu unrhyw ysgol gofrestredig yn cael ei harolygu gan gorff sydd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod cofrestru

[1] Mae'r term 'perchennog', fel y'i diffinnir gan Ddeddf Addysg 1966, yn golygu'r unigolyn neu'r corff o bobl sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol a gall gynnwys unig berchennog, corff llywodraethol, ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr.

Rhaid i'r arolygiaeth:

- lunio adroddiad i'r awdurdod cofrestru ar y graddau y mae'r ysgol yn bodloni'r safon/au mewn perthynas â'r arolygiad
- pan na fodlonir y rheoliadau, nodi beth mae angen i'r ysgol ei wneud er mwyn cydymffurfio â nhw
- os yw'r awdurdod cofrestru'n gofyn am hynny, trefnu ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad

Rhaid i arolygwyr ddefnyddio'r fframwaith a'r arweiniad hwn pan fyddant yn llunio eu barnau ac yn ysgrifennu eu hadroddiad arolygiad.

### Darpariaeth y blynyddoedd cynnar

Ar hyn o bryd, mae rhai ysgolion annibynnol yn cynnig ystod o ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar a allai gynnwys cylchoedd chwarae, gofal dydd meithrin a darpariaeth addysg a ariennir gan y wladwriaeth. Dylai arolygwyr ond arolygu'r ddarpariaeth hon lle mae plant wedi eu cofrestru fel disgyblion.

Os yw'r ysgol yn aelod o Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ac yn derbyn cyllid gan y wladwriaeth ar gyfer plant tair a phedair oed, rhaid i'r cwricwlwm ar gyfer y plant hynny fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Pan fydd darpariaeth y blynyddoedd cynnar nad yw'n rhan o'r ysgol (nid yw'r plant ar gofrestr yr ysgol), rhaid i arolygwyr wneud yn siŵr bod y ddarpariaeth wedi'i chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r awdurdod lleol, fel y bo'n briodol. Mae hwn yn fater diogelu pwysig a dylai'r arolygwyr godi'r mater hwn gyda'r ysgol, os nad yw wedi cymryd y camau priodol.

## Rhan 1: Trefniadau arolygu

### Cyflwyniad

Mae'r adran hon wedi'i chyflwyno mewn ffordd sy'n adlewyrchu dilyniant y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad craidd.

Mae'r arolygydd cofnodol (ACof) yn gyfrifol am gynnal a rheoli'r arolygiad, ac am yr adroddiad arolygu. Er bod yr arweiniad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar rôl yr arolygydd cofnodol, rhaid i holl aelodau'r tîm gydymffurfio â'r un gofynion arolygu.

### Egwyddorion arolygu

Bydd arolygwyr:

- yn sicrhau bod arolygu o ansawdd uchel ac yn ymatebol i anghenion pob dysgwr
- yn sicrhau bod barnau yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn cynnwys yr ysgol yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys cyfle i'r ysgol ddewis enwebai

- yn defnyddio hunanwerthusiad yr ysgol fel y man cychwyn ar gyfer yr arolygiad ac i nodi meysydd allweddol ar gyfer ymchwilio iddynt er mwyn llunio barnau ar ddilysrwydd canfyddiadau'r adroddiad
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennaeth a pharatoi gan yr ysgol
- yn cael safbwynt y dysgwyr a safbwynt rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl waith arolygu, gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog pa bryd bynnag y byddant yn briodol
- yn adeiladol wrth nodi a chefnogi ysgolion sydd ag agweddau pwysig neu wendidau i'w gwella

## Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr

Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni safonau cod ymddygiad Estyn. Wrth gynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr:

- yn gwneud eu gwaith gyda didwylledd, cwrteisi a sensitifrwydd priodol
- yn gwerthuso gwaith y darparwr yn wrthrychol
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith

Mae'n bwysig bod arolygwyr yn barnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu cyfraniad at ddeilliannau ac nid ar sail unrhyw ffafriaeth am ddulliau penodol. Yr allwedd i'r farn yw p'un ai a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas i'r diben o ran cynorthwyo pob disgybl i gyflawni safonau uchel a lefelau cadarn uchel o les.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y byddant yn cael hysbysiad eu bod yn rhan o'r arolygiad o'r ysgol.

## Disgwyliadau darparwyr

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol y naill at y llall. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal Cod Ymddygiad Estyn, ond rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol
- cymhwyso eu codau ymddygiad eu hunain wrth ddelio gydag arolygwyr
- galluogi arolygwyr i gynnal eu harolygiad mewn ffordd agored a gonest
- galluogi arolygwyr i werthuso'r ddarpariaeth yn wrthrychol yn erbyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin
- defnyddio systemau electronig Estyn ar gyfer rheoli arolygiadau fel bo'r gofyn
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy am yr ysgol

- cynnal trafodaethau pwrpasol gyda'r arolygydd cofnodol ac arolygwyr eraill
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb fod rheolwr neu uwch arweinydd yn bresennol
- tynnu sylw arolygwyr at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas trwy'r enwebai neu'r uwch arweinydd
- gweithio gydag arolygwyr i sicrhau cyn lleied o aflonyddwch a straen ag y bo modd trwy gydol yr arolygiad
- sicrhau iechyd a diogelwch yr arolygwyr tra byddant ar safle'r ysgol
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau'r arolygiad hyd nes bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n derfynol

Adeg yr hysbysiad ynghylch yr arolygiad, dylai ysgolion adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb ysgolion yw amlygu unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau eu harolygiad.

## Materion iechyd, diogelwch a lles

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad yr arolygiaeth ar arolygu diogelu. Os byddant yn sylwi ar unrhyw beth sydd yn eu barn nhw yn risg wirioneddol i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu ddisgyblion, dylai arolygwyr rybuddio rheolwyr yn yr ysgol. Ym mhob achos, dylai arolygwyr wneud nodyn electronig ar wahân o'r bygythiad a'u bod wedi rhoi gwybod i reolwyr amdano. Dylai arolygwyr adrodd ar risgiau amlwg yn gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles o dan faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad). Lle bo'r risgiau hyn yn bryder difrifol, dylai arolygwyr gynnwys sylw byr yn nhestun yr adroddiad ac argymhelliad yn yr adroddiad. Bydd Estyn yn anfon llythyr at yr ysgol yn gofyn iddynt amlinellu'r modd y byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg.

## Ymateb i honiad ynghylch diogelu

Os caiff arolygydd wybod am honiad/amheuaeth ynghylch diogelu sy'n ymwneud â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sy'n agored i niwed, dylai ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol 'Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu', sydd ar gael ar wefan Estyn.

## Dull arolygu

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw gwerthusiad yr ysgol o'i pherfformiad ei hun, wedi'i ategu gan dystiolaeth berthnasol. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar y gwaith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn cymryd sampl o dystiolaeth i brofi gwerthusiad yr ysgol ei hun o'i gwaith.

Y cynnydd a wna disgyblion o'u mannau cychwyn a'r safonau a gyflawnir ganddynt yw mesurau allweddol ansawdd yr addysg y maent wedi'i chael ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Bydd arolygiadau yn canolbwyntio ar anghenion disgyblion, eu hagweddau at ddysgu a'r effaith a gaiff y ddarpariaeth yn yr ysgol ar gefnogi eu cynnydd a'r safonau a gyflawnir ganddynt.

Gall y cyfnod arolygu a nifer yr arolygwyr amrywio yn ôl maint yr ysgol.

Bydd pob adroddiad arolygu yn ymdrin â'r holl feysydd arolygu a gofynion adrodd sy'n cael sylw yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Byddwn yn cynnal pob arolygiad yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar wefan yr arolygiaeth, sef www.estyn.llyw.cymru, a chânt eu cefnogi gan arweiniad atodol ar arolygu datblygiad medrau Cymraeg disgyblion.

## Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Bydd yr arolygiaeth yn defnyddio system electronig o'r enw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR) ar gyfer rheoli sawl agwedd ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n caniatáu i ysgolion lwytho gwybodaeth i fyny cyn yr arolygiad a lawrlwytho arweiniad oddi wrth yr arolygiaeth am y broses arolygu. Hefyd, yr YAR yw'r man lle gall penaethiaid ac enwebeion fynd at y cwestiynau sy'n dod i'r amlwg gan yr arolygydd cofnodol ar ddechrau'r arolygiad a'r holiaduron ôl-arolygiad.

## Y tîm arolygu

Bydd timau arolygu yn cael eu harwain gan arolygydd cofnodol (AEM), a bydd aelodau eraill o'r tîm yn cael eu dewis o blith AEM neu arolygwyr ychwanegol. Gallai arolygwyr ychwanegol fod ar secondiad neu dan gontract i'r arolygiaeth. Bydd arolygydd cymheiriaid (sef aelod staff o ysgol arall) ym mhob tîm hefyd.

Mae'r arolygydd cofnodol yn rheoli'r tîm arolygu, ac ef/hi yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â'r arolygiad.

Byddwn yn gwahodd ysgolion i ddewis uwch aelod o staff, o'r enw'r enwebai, i weithio gyda'r tîm arolygu. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn derbyn y gwahoddiad, ond nid yw'n ofynnol. Dylai'r enwebai fod â swydd ar lefel ddigon uchel i fod yn gyswllt rhwng yr ysgol a'r tîm arolygu ond nid oes angen iddo/iddi fod yn arweinydd yr ysgol. Gall ysgolion fynd at yr arweiniad i enwebeion ar baratoi ar gyfer yr arolygiad o ddolenni o fewn y ffurflen cyswllt cychwynnol (FfCC), sy'n cael ei llenwi gan y Cydlynydd Arolygu (CydAr) ac sydd ar gael trwy'r YAR.

## Cysylltu â'r ysgol cyn yr arolygiad

Bydd yr ysgol yn cael 15 diwrnod gwaith o rybudd am yr arolygiad.

Ar ôl hyn, bydd yr arolygiaeth yn ffonio'r ysgol i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Y cydlynwyr arolygu yn Estyn sy'n cysylltu ag ysgolion i ddechrau. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd y Cydlynydd Arolygu:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad, gan gynnwys ffurflen hunanwerthuso wedi ei llenwi gan yr ysgol ar ei darpariaeth ar gyfer diogelu, ac yn gwneud y trefniadau ar gyfer ei chael ar ffurf electronig drwy gyfrwng yr Ystafell Arolygu Rithwir
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt ac yn gofyn am sesiwn friffio gyffredinol ynghylch iechyd a diogelwch ar gyfer y tîm ar ddechrau'r arolygiad
- yn pennu a yw'r ysgol yn dymuno cael enwebai, ac os felly, yn cytuno ar rôl yr enwebai ac esbonio'r broses ar gyfer cwblhau arweiniad yr enwebai
- yn trefnu cyfarfod ar ddechrau'r arolygiad gyda'r enwebai i ddarparu brîff iechyd a diogelwch ar gyfer y tîm
- yn darparu dolenni ac arweiniad ar gyfer llenwi holiaduron cyn-arolygiad ar-lein i

ddysgwyr, rhieni a staff
- yn cytuno ar drefniadau ar gyfer trefnu cyfarfod gyda rhieni/gofalwyr
- yn trefnu bod tystiolaeth ategol, gan gynnwys samplau o waith disgyblion, ar gael
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gwynion a allai godi yn ystod yr arolygiad
- yn trefnu i aelod o'r corff llywodraethol neu'r perchennog gyfarfod ag arolygwyr yn ystod y cyfnod arolygu
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, er enghraifft ystafell ar gyfer yr arolygwyr, parcio a chysylltiad â'r rhyngrwyd
- yn gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ynghylch canfyddiadau'r arolygiad
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiadur ôl-arolygiad
- yn rhoi gwybod i'r ysgol trwy'r ffurflen cyswllt cychwynnol am drefniadau allweddol yr arolygiad

Bydd y Cydlynydd Arolygu yn gofyn am y wybodaeth ganlynol gan yr ysgol trwy'r Ystafell Arolygu Rithwir cyn gynted ag y bo modd yn dilyn yr hysbysiad ffurfiol o'r arolygiad:

- gwybodaeth allweddol am gefndir yr ysgol
- copi o hunanwerthusiad diweddaraf yr ysgol, gan gynnwys dadansoddiad o berfformiad disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf, a chynllun datblygu neu gynllun gwella'r ysgol
- manylion am amserlenni'r ysgol ar gyfer cyfnod yr arolygiad

Os yw'r arolygiad yn cael ei gynnal yn gynnar yn y flwyddyn ysgol, gallai'r arolygiaeth ofyn i'r ysgol ddarparu samplau o waith disgyblion o'r flwyddyn flaenorol yn ystod yr ymweliad arolygu, lle y bo'n bosibl.

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i ysgolion am yr arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am sut i gynnal holiadur cyn-arolygu cyfrinachol ar-lein i ddisgyblion a phob rhiant/gofalwr. Hefyd, bydd Estyn yn darparu holiadur ar-lein cyn-arolygiad ar gyfer yr holl staff addysgu a staff cymorth sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol. Bydd canlyniadau'r holiaduron cyn-arolygu yn llunio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad ac yn helpu arolygwyr i lunio cwestiynau datblygol i ymchwilio iddynt ymhellach.

Yn ystod yr arolygiad, gallai arolygwyr gyfweld â charfan o ddisgyblion sydd â rolau arwain neu gynrychioliadol, grwpiau penodol eraill o ddisgyblion a charfan o staff addysgu a/neu staff cymorth fel rhan o'u proses i gasglu tystiolaeth.

Gallai ysgol dderbyn cyllid y wladwriaeth ar gyfer disgyblion, er enghraifft y rheiny:

- sydd mewn lleoliadau datblygu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant
- sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig
- sydd dan ofal yr awdurdod lleol

Bydd yr arolygiaeth yn trefnu cael brîff ar yr ysgol gan yr awdurdod lleoli.

Pan fydd darpariaeth yn cael ei harolygu gan AGC hefyd, bydd yr arolygiaeth yn cysylltu'n uniongyrchol â'r sefydliad hwnnw yn unol â'r protocol.

## Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Gan ystyried hunanwerthusiad yr ysgol ac unrhyw wybodaeth sydd eisoes ym

meddiant yr arolygiaeth, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn defnyddio'r wybodaeth cyn-arolygiad i lunio set fer o gwestiynau sy'n dod i'r amlwg i lywio gweithgarwch arolygu cychwynnol y tîm arolygu. Bydd yr ysgol yn derbyn y cwestiynau sy'n dod i'r amlwg trwy'r YAR ar fore cyntaf yr arolygiad. Bydd yr arolygydd cofnodol yn briffio'r tîm ymhellach pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol.

Mae arolygiadau'n cynnwys arsylwi addysgu, gan gynnwys teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion. Rydym yn gofyn i ysgolion roi cynllun llawn o'r holl weithgareddau y bwriedir eu cynnal yn ystod wythnos yr arolygiad yn yr YAR. Ar sail y wybodaeth sy'n dod i law, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arsylwadau dysgu ac addysgu, y teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion. Bydd y sampl yn adlewyrchu ystod gwaith yr ysgol ac yn cynorthwyo ag ymchwilio i gwestiynau datblygol a meysydd diddordeb y mae gwaith arolygu cychwynnol a chyfredol yr arolygwyr yn eu hawgrymu.

## Yn ystod yr arolygiad

### Y cyfarfod tîm cychwynnol

Yng nghyfarfod cychwynnol y tîm arolygu, dylai'r ysgol roi brîff iechyd a diogelwch, a gall yr ysgol ddarparu datganiad sefyllfa bras ar ei blaenoriaethau strategol a'i chyfnod datblygu presennol. Ar ôl hynny, dylai'r tîm drafod y strategaeth ar gyfer yr arolygiad, gan ganolbwyntio i ddechrau ar y cwestiynau datblygol sy'n deillio o hunanwerthusiad yr ysgol. Bydd arolygwyr yn samplu, yn profi ac yn dilysu'r gwerthusiadau a wnaed gan yr ysgol. Dylai'r trafodaethau ganolbwyntio ar y dystiolaeth y mae angen i arolygwyr ei hadolygu. Bydd hyn yn cynnwys arsylwadau, gan gynnwys teithiau dysgu, samplu gwaith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill.

### Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad fel y gallant fynd i'r afael â'r gofynion adrodd yn y pum maes arolygu a'r cwestiynau datblygol o'r adolygiad o'r wybodaeth cyn- arolygu. Bydd y tîm yn sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i adolygu'r dystiolaeth allweddol sydd ei hangen arnynt i lunio'u barnau. Dyma'r prif fathau o dystiolaeth:

- samplau o waith disgyblion
- trafodaethau gyda disgyblion, staff, arweinwyr, rheolwyr, llywodraethwyr, rhieni ac eraill
- arsylwi addysgu a gweithgareddau eraill, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu
- ymatebion i holiaduron cyn-arolygu gan ddisgyblion, rhieni/gofalwyr, staff addysgu a staff cymorth
- tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad a chynnydd disgyblion

Bydd arsylwadau uniongyrchol o waith disgyblion yn cael eu defnyddio gan y tîm lle bynnag y bo modd i gasglu tystiolaeth i ategu eu barnau. Gall arolygwyr ddewis sampl ychwanegol o waith disgyblion, os bydd angen, i ymestyn eu hymchwiliad mewn agwedd benodol.

Bydd arolygwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i gasglu tystiolaeth ar gyfer eu gwerthusiad o gynnydd disgyblion ac ansawdd darpariaeth yr ysgol. Gall hyn gynnwys teithiau dysgu, pan fydd arolygwyr yn symud yn gymharol gyflym drwy nifer o ddosbarthiadau yn bwrw golwg ar agwedd benodol ar ddarpariaeth yr ysgol, cael sgyrsiau â disgyblion dethol am eu gwaith, a chynnal trafodaethau ag athrawon unigol am ddysgu'r disgyblion yn eu dosbarthiadau, a'r modd y maent yn cynllunio gwaith i fodloni eu hanghenion. Yn ogystal, gallant gynnal arsylwadau hwy o ystafelloedd dosbarth.

Mae llais y dysgwr yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar gyfer arolygwyr. Bydd trafodaethau gyda disgyblion yn gyfle i archwilio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u gwaith. Bydd hefyd yn helpu arolygwyr i bwyso a mesur pa mor dda y mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion ac yn cyfrannu at eu cynnydd a'u lles.

Dylai ysgolion drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, yn enwedig canlyniadau unrhyw brofion sgrinio ac asesiadau cychwynnol eraill. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i farnu cynnydd disgyblion er mwyn llunio safbwynt am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni o'i gymharu â mannau cychwyn a'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o asesiadau i ddylanwadu ar eu cynllunio a'u gwersi.

Bydd angen i'r tîm ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am yr ysgol a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad.

Pan nad y pennaeth yw'r enwebai, mae'n bwysig bod yr arolygydd cofnodol yn cynnal cyfarfod dyddiol byr gyda'r pennaeth i egluro materion arolygu a chanfyddiadau bras y tîm arolygu sy'n dod i'r amlwg.

**Cofnodi tystiolaeth arolygu**

Bydd arolygwyr yn defnyddio amrywiol ffurflenni i gofnodi a choladu eu canfyddiadau a'u barnau. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni yn electronig fel rhan o system electronig Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau arolygu.

**Cyfarfodydd tîm**

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt corfforaethol, cywir, dibynadwy a dilys am safonau ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Bydd cyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi'r barnau yn hunanwerthusiad yr ysgol
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg
- datrys cwestiynau a materion cyn-arolygiad
- nodi unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad ac unrhyw argymhellion

**Deialog broffesiynol**

Ar ddiwedd sesiwn arsylwi gwers, dylai arolygwyr gynnal deialog broffesiynol fer gyda'r aelod staff ar y gwaith a welwyd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen

cynnal y drafodaeth hon yn ddiweddarach yn ystod yr arolygiad.

Dylai prif ffocws y drafodaeth fod ar y disgyblion, y cynnydd a wnaed ganddynt yn ystod y wers a'r safonau a gyflawnwyd. Dylai'r arolygydd bwysleisio mai barnau dros dro sy'n dod yw'r amlwg yw'r rhain ar un agwedd ar sail y dystiolaeth, ac y gellir diwygio'r holl farnau, ar ôl myfyrio arnynt, ar ôl craffu ar waith disgyblion neu siarad â disgyblion, neu o ganlyniad i safoni o fewn y tîm. Dylai arolygwyr geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu o ran y gwaith penodol a welwyd.

O ganlyniad i natur teithiau dysgu, sydd â ffocws craff, a lledaenu'r gweithgarwch ar draws nifer o wersi/dosbarthiadau mewn cyfnod cymharol fyr, ni fydd modd i arolygwyr gynnig deialog broffesiynol i athrawon unigol ar ôl gweithgarwch taith ddysgu.

### Adborth ffurfiol

Ar ddiwedd y rhan ar y safle o'r arolygiad, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i arweinwyr a rheolwyr. Dylai'r ysgol wahodd y perchennog, a lle bo'n briodol, cynrychiolydd o'r corff llywodraethol i'r cyfarfod. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y prif farnau ar gyfer pob un o'r pum maes arolygu, a'r rhesymau dros ddyfarnu'r barnau hyn.

Mae'r cyfarfod adborth yn rhoi cyfle i arweinwyr a rheolwyr glywed y barnau a myfyrio arnynt. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio i'r ysgol y gellir codi materion a'u trafod, gellir cywiro materion ffeithiol a gellir egluro barnau, ond na ellir trafod y barnau eu hunain.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr ysgol. Dylai'r arolygydd cofnodol roi gwybod i'r ysgol os oes angen unrhyw weithgarwch dilynol.

Yn ystod yr arolygiad, bydd y tîm hefyd yn ystyried a oes yna unrhyw arfer effeithiol yn yr ysgol y mae'n werth i ysgolion eraill ei hystyried. Yn yr achos hwn, bydd yr arolygydd cofnodol yn gofyn i'r ysgol baratoi astudiaeth (neu astudiaethau) achos i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Mae'r holl farnau yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni a'u dilysu gan PAEM. Maent yn gyfrinachol i staff a llywodraethwyr yr ysgol. Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt i'r grŵp hwn, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol, hyd nes i Estyn gyhoeddi'r adroddiad ar ei wefan.

### Cwynion am y dull o gynnal yr arolygiad

Os bydd unrhyw faterion yn codi ynglŷn â'r dull o gynnal yr arolygiad yn gyffredinol neu ymddygiad arolygwyr unigol, yna dylai'r ysgol, trwy'r enwebai, godi'r materion hyn gyda'r arolygydd cofnodol yn uniongyrchol, a chyn gynted ag y bo modd. Ni ddylai'r ysgol aros tan ar ôl yr arolygiad, ond dylai godi unrhyw faterion yn ystod yr arolygiad ar y safle. Mae materion yn aml yn codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth, ac fel arfer, gellir datrys y rhain yn gyflym ac yn foddhaol yn yr ysgol yn fuan wedi iddynt ddigwydd.

Ceir arweiniad i ysgolion ynglŷn â gweithdrefnau cwyno Estyn ar wefan Estyn.

## Bodloni gofynion statudol

Mae Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn llywodraethu gwaith ysgolion annibynnol. Mae'r arolygiaeth yn disgwyl i ysgolion werthuso pa mor effeithiol y maent yn bodloni'r gofynion hyn trwy eu gweithdrefnau hunanwerthuso arferol eu hunain. Dylent nodi pa mor dda y maent yn bodloni'r gofynion hyn yn eu hunanwerthusiad. Bydd arolygwyr yn defnyddio'r hunanwerthusiad a gwybodaeth arall i nodi pa mor effeithiol y mae ysgol yn bodloni ei gofynion statudol. Bydd arolygwyr yn ymchwilio i unrhyw faterion ble maent yn debygol o gael effaith sylweddol ar safonau ac ansawdd.

Bydd arolygwyr yn nodi unrhyw fethiant i fodloni gofynion statudol sy'n effeithio ar ansawdd a safonau yn yr adroddiad arolygiad. Pan fydd hyn yn digwydd, gallai arwain at farn nad yw'n uwch na digonol ac angen gwelliant ar gyfer y maes arolygu perthnasol.

## Ar ôl yr arolygiad

### Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg ac yn ddefnyddiol i'r ysgol.

Pan fyddant yn ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn sydd ar gael ar ei wefan, sef www.estyn.llyw.cymru.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau yn ddwyieithog lle mae ysgolion wedi gofyn am hyn, yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Estyn.

Rydym yn seilio strwythur yr adroddiad arolygu ar fframwaith arolygu cyffredin a bydd yr adroddiad ar y ffurf ganlynol:

**Ynglŷn â'r ysgol**

**Crynodeb**

**Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru**

**Argymhellion**

**Beth sy'n digwydd nesaf**

**Prif ganfyddiadau**

1 Safonau
2 Lles ac agweddau at ddysgu
3 Addysgu a phrofiadau dysgu
4 Gofal, cymorth ac arweiniad
5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

## Sail dystiolaeth yr arolygiad

Byddwn yn llunio'r adroddiad o fewn graddfeydd amser statudol neu raddfeydd amser cytûn ar gyfer y sector.

### Y gwiriad cywirdeb ffeithiol

Bydd yr arolygiaeth yn rhoi drafft hwyr o'r adroddiad i'r ysgol er mwyn helpu i wirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Gan amlaf, bydd gan yr ysgol bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw gamgymeriadau ffeithiol.

Mae'r gwiriad cywirdeb ffeithiol yn canolbwyntio ar ddatrys unrhyw anghywirdeb ffeithiol yn yr adroddiad arolygu. Nid yw'n canolbwyntio ar y canfyddiadau na'r barnau. Ceir arweiniad pellach i ysgolion ar natur a chwmpas y gwiriad cywirdeb ffeithiol ar wefan Estyn.

Dylai'r ysgol godi unrhyw gŵynion am y dull o gynnal yr arolygiad yn ystod yr arolygiad ar y safle. Fodd bynnag, os bydd yr ysgol yn parhau i fod â chwynion heb eu datrys am y dull o gynnal yr arolygiad ar ôl diwedd yr arolygiad ar y safle, yna dylai gyfeirio at weithdrefnau Estyn ar gyfer trin cwynion ar wefan Estyn. Mae'r gweithdrefnau'n canolbwyntio ar y dull o gynnal yr arolygiad, ac nid ar y canfyddiadau na'r barnau a luniwyd gan y tîm arolygu.

## Sicrhau ansawdd arolygiadau

Mae'r arolygiaeth wedi ymrwymo i:

- ddewis, hyfforddi, briffio, cefnogi a defnyddio arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol i alluogi'r enwebai i ymgymryd â rôl weithredol
- deialog reolaidd gyda'r pennaeth yn ystod arolygiad
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r arweiniad
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus
- adborth llafar diamwys ar ganfyddiadau'r tîm, a barnau ar gyfer pob maes arolygu
- adroddiadau clir, cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda

Fel rhan o'i gweithdrefnau sicrhau ansawdd, mae'r arolygiaeth yn gwahodd ysgolion i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael i ysgolion yn yr YAR. Dylai ysgolion lenwi rhan gyntaf yr holiadur ar unwaith yn dilyn yr arolygiad ar y safle, a'i gyflwyno'n electronig i Estyn drwy system yr YAR. Gall ysgolion lenwi ail ran yr holiadur yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu, eto drwy system yr YAR.

Dylai ysgolion godi unrhyw bryderon am y ffordd y cynhaliwyd arolygiad yn ystod yr arolygiad cyn gynted â phosibl gyda'r arolygydd cofnodol.

Yr arolygydd cofnodol fydd yn sicrhau ansawdd yr arolygiad yn y lle cyntaf. Bydd yr arolygiaeth yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau ar y safle a bydd yn sicrhau ansawdd pob adroddiad arolygu cyn eu cyhoeddi ar wefan Estyn.

Mae trefniadau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau a'r trefniadau ar gyfer delio â chwynion ar gael ar wefan yr arolygiaeth, sef www.estyn.llyw.cymru.

## Rhan 2: Meysydd arolygu a gofynion adrodd

Mae'r arweiniad sy'n dilyn yn amlinellu'r modd y dylai arolygwyr ymdrin ag adrannau amrywiol yr adroddiad arolygu a'r hyn y mae angen iddynt ei ystyried wrth werthuso pum maes arolygu'r fframwaith arolygu cyffredin.

### Y Fframwaith Arolygu Cyffredin

Mae pum maes arolygu'r fframwaith arolygu cyffredin wedi'u hamlinellu isod.

Mae pob maes arolygu'n cynnwys gofynion adrodd. Dyma'r agweddau y mae'n rhaid i'r tîm arolygu eu hystyried wrth adrodd ar bob ysgol.

**Y Fframwaith Arolygu Cyffredin**

**1 – Safonau**

1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
1.3 Safonau a chynnydd mewn medrau

**2 – Lles ac agweddau at ddysgu**

2.1 Lles
2.2 Agweddau at ddysgu

**3 – Addysgu a phrofiadau dysgu**

3.1 Ansawdd yr addysgu
3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm
3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau

**4 – Gofal, cymorth ac arweiniad**

4.1 Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu
4.2 Datblygiad personol
4.3 Diogelu

**5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**

5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
5.3 Dysgu proffesiynol
5.4 Defnyddio adnoddau

### Llunio barnau

Bydd y tîm arolygu yn rhoi barn ar gyfer pob maes arolygu, gan ddefnyddio'r raddfa

bedwar pwynt isod.

| |
|---|
| **Rhagorol** – Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** – Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** – Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** – Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Bydd arolygwyr yn llunio'u barnau drwy ystyried a phwyso a mesur pwysigrwydd y cryfderau a'r gwendidau ym mhob maes arolygu. Bydd yr adroddiad ar bob maes arolygu yn adlewyrchu a chefnogi'r farn berthnasol.

Daw gwendidau'n bwysig pan fyddant yn cael effaith arwyddocaol ar safonau a/neu les. Bydd cryfderau yn aml i'w gweld pan geir agweddau pwysig y mae angen eu gwella. Fodd bynnag, pan geir agweddau pwysig y mae angen eu gwella, y farn briodol fel arfer fydd 'Digonol ac angen gwelliant', neu 'Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys'.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir mewn perthynas â'r gofynion adrodd ym mhob maes arolygu. Hefyd, byddant yn ystyried pob agwedd ar y gofynion adrodd hyn fel y'u hamlinellir yn y llawlyfr arweiniad arolygu. Fodd bynnag, gall yr hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno ym mhob gofyniad adrodd amrywio yn ôl arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn ei ddarganfod ym mhob ysgol. Gall arolygwyr adrodd 'trwy eithriad'. Ystyr hyn yw y gallant adrodd ar rai agweddau pan fydd cryfderau penodol neu wendidau arwyddocaol yn unig.

## Ynglŷn â'r ysgol

Dylai'r adran hon o'r adroddiad fod yn fyr a dylai gynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol am yr ysgol. Ni ddylai'r adran gynnwys unrhyw werthusiad o'r ysgol na'i darpariaeth. Gan amlaf, bydd yr arolygydd cofnodol yn cytuno ar gynnwys yr adran hon gyda'r ysgol yn ystod yr arolygiad ac yn ystod gwiriad ffeithiol yr ysgol o'r adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi. Pan fydd anghytuno ynglŷn â chynnwys yr adran hon, yr arolygydd cofnodol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â beth i'w gynnwys yn yr adroddiad.

Bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth fras am y canlynol:

- maint, natur a lleoliad yr ysgol, gan gynnwys statws perchennog yr ysgol fel grŵp gweinyddu a/neu ymddiriedolaeth elusennol
- cefndir ac amgylchiadau'r disgyblion
- cefndir ieithyddol y disgyblion
- unrhyw newidiadau pwysig ers yr arolygiad diwethaf
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill, fel cyfran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig
- dyddiad penodi'r pennaeth
- mis/blwyddyn yr arolygiad blaenorol o'r ysgol

### Crynodeb

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn cynnwys datganiad cryno byr (100-200 gair, fel arfer) ar ganfyddiadau'r arolygiad.

Dylai'r crynodeb adrodd ar y cryfderau allweddol ac unrhyw agweddau pwysig neu wendidau y mae angen eu gwella. Dylai fod yn gyson â'r canfyddiadau yng nghorff yr adroddiad. Ni ddylai gynnwys un farn drosfwaol ar yr ysgol gyfan.

### Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Yn yr adran hon o'r adroddiad, bydd arolygwyr yn cynnwys trosolwg o'r graddau y mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer pob un o'r Safonau Cofrestru sydd wedi'u rhifo. Bydd arolygwyr yn nodi yn yr adroddiad os na fodlonir un neu fwy o'r gofynion rheoleiddio.

### Argymhellion

Dylai'r argymhellion roi syniad clir a phenodol i'r ysgol o'r meysydd i'w gwella y bydd angen iddi fynd i'r afael â nhw. Dylai arolygwyr ysgrifennu'r argymhellion yn nhrefn blaenoriaeth. Dylai'r argymhellion ddeillio o'r prif farnau yn y meysydd arolygu a dylent ddarparu sylfaen glir ac ymarferol y gall yr ysgol weithredu arni.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r ysgol ei wneud ar ôl yr arolygiad. Ym mhob achos, bydd angen i'r ysgol ymateb i'r argymhellion trwy roi'r camau gweithredu sydd eu hangen ar waith i wneud y gwelliannau a nodwyd gan y tîm arolygu. Bydd yr adroddiad hefyd yn dangos a yw Estyn wedi gofyn i'r ysgol ddarparu astudiaeth achos mewn perthynas ag unrhyw agwedd(au) ar ei gwaith. Bydd yr adroddiad yn datgan p'un a oes angen unrhyw lefel o weithgarwch dilynol gan Estyn ar yr ysgol.

## Meysydd arolygu

Ar gyfer pob maes arolygu, rhoddir arweiniad ar ei gynnwys a'r ystyriaethau y dylai arolygwyr eu cadw mewn cof wrth ei werthuso.

O fewn pob maes arolygu, gall yr arolygydd cofnodol adrodd ar yr agweddau yn y drefn yr ymddangosant yn y llawlyfr neu gallant ddewis rhoi'r agweddau mewn trefn wahanol er mwyn adlewyrchu eu canfyddiadau. Er enghraifft, ym Maes Arolygu 1 - Safonau, gallant ddechrau gyda safonau a chynnydd o ran medrau, yna grwpiau penodol a safonau, a chynnydd cyffredinol ar y diwedd. Ym Maes Arolygu 3 – addysgu a phrofiadau dysgu, gallent ddechrau â'r cwricwlwm ac wedyn addysgu os yw hyn yn gwneud canfyddiadau'r tîm yn gliriach.

Dylai'r adroddiad ar bob maes arolygu fod rhwng 250 a 700 gair fel arfer.

Mae arweiniad atodol ar arolygu agweddau amrywiol ar waith ysgolion ar gael ar wefan Estyn: https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/arweiniad-atodol.

## 1 Safonau

### 1.1 Safonau a chynnydd yn gyffredinol

Dylai arolygwyr werthuso'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn gyffredinol a barnu a yw'r rhain yn briodol i oedran a gallu'r disgyblion. Dylai arolygwyr ystyried cynnydd disgyblion, yn enwedig eu cynnydd ers dechrau'r ysgol, o un cyfnod i'r llall, ac yn ystod y flwyddyn ysgol.

Dylai arolygwyr seilio eu gwerthusiadau o gyflawniad a chynnydd disgyblion ar ganlyniadau arsylwadau gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion a thrafodaethau â disgyblion. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae disgyblion yn adalw dysgu blaenorol, yn datblygu medrau meddwl, yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, ac yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd.

Dylai arolygwyr ystyried yr holl wybodaeth berthnasol am berfformiad. Dylent arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn ei wneud ar y cyfan a'r duedd gyffredinol yn ei pherfformiad, yn enwedig mewn perthynas â'r safonau a gyflawnir, a'r cynnydd a wna disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion. Dylai arolygwyr edrych ar ddadansoddiad yr ysgol o ddata am berfformiad dros gyfnod, dros o leiaf y tair blynedd diwethaf fel arfer, i nodi tueddiadau mewn perfformiad. Dylai arolygwyr ystyried y data am berfformiad yng ngoleuni eu tystiolaeth eu hunain o arsylwadau gwersi, trafodaethau â disgyblion a chraffu ar waith ysgrifenedig ac ymarferol.

Er y dylai arolygwyr ystyried ystod eang o wybodaeth am safonau a chynnydd disgyblion, dylent fel arfer ond adrodd ar ddata perfformiad pan gaiff y canlyniadau eu casglu yn genedlaethol a'u gwirio'n allanol.

Dylai arolygwyr fod yn ymwybodol na fydd hi bob amser yn bosibl nac yn briodol cymharu canlyniadau cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion mewn ysgolion sy'n addysgu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sylweddol â'r rheiny o ysgolion eraill. Fodd bynnag, mae'n bwysig ffurfio barn ar y graddau y mae disgyblion yn cyflawni eu potensial. Dylai arolygwyr ystyried cyflawniadau a chyraeddiadau disgyblion yn erbyn gwybodaeth waelodlin.

Yn yr ysgolion hyn, dylai arolygwyr ystyried p'un a yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent, o ystyried eu mannau cychwyn a'u hoedran a'u gallu. Er enghraifft, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae disgyblion â medrau mwy datblygedig yn cyflawni, a'r graddau y mae'r gwaith a wnânt yn eu hymestyn yn llawn i gyflawni cystal ag y gallent.

Dylai barnau am gyflawniad ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ystyried eu cyflawniadau mewn perthynas â nodau dysgu cytûn. Dylai arolygwyr ystyried tystiolaeth yng nghynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion wrth lunio barn ar gyfradd y cynnydd a wna disgyblion.

Pan fo'n briodol, bydd arolygwyr yn ystyried nifer ac ystod y cymwysterau achrededig a gyflawnir gan ddysgwyr, a ph'un a yw'r rhain yn cyd-fynd â'u gallu.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a yw disgyblion yn yr ysgolion hyn yn symud ymlaen i gyrsiau, hyfforddiant, cyflogaeth neu ddarpariaeth arbenigol sy'n briodol i'w gallu, eu diddordebau a'u perfformiad blaenorol. Yn benodol, ar ddiwedd cyfnod allweddol 4,

gallent ystyried cyrchfannau'r holl ddisgyblion ac nid yn unig y rheiny sy'n aros ymlaen mewn darpariaeth ôl-16 yn yr ysgol. Dylent ystyried cyfran y rhai sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn cyflogaeth neu nad ydynt yn ymgymryd ag addysg a hyfforddiant (NACH).

### 1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol

Dylai arolygwyr werthuso cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion, er enghraifft disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, bechgyn a merched, disgyblion â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt (SIY) a disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Yn achos disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, dylai barnau am gyflawniad ystyried gwybodaeth am eu hanghenion a'u galluoedd unigol. Dylai arolygwyr ystyried cyfradd cynnydd y disgyblion hyn mewn perthynas â'u targedau a'u mannau cychwyn unigol. Dylai arolygwyr edrych hefyd ar gynnydd disgyblion â medrau cymharol wan nad ydynt yn cael cymorth ar gyfer anghenion addysgol arbennig.

Mewn ysgolion sy'n addysgu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sylweddol, gallai fod yn briodol adrodd ar wahaniaethau rhwng cynnydd disgyblion sydd â gwahanol fathau o anghenion addysgol arbennig, er enghraifft anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) ac anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl). Dylai hyn ond bod os oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cynnydd y ddau grŵp.

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried a yw grwpiau penodol o ddisgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent mewn perthynas â'u mannau cychwyn a'u hoedran a'u gallu. Er enghraifft, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae disgyblion â medrau mwy datblygedig yn cyflawni a'r graddau y mae'r gwaith a wnânt yn eu hymestyn yn llawn i gyflawni cystal ag y gallent.

### 1.3 Safonau a chynnydd o ran medrau

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae disgyblion yn datblygu'r medrau gofynnol i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan a dysgu'n effeithiol.

Dylai arolygwyr adrodd yn glir ar safonau disgyblion ym mhob un o'r medrau canlynol: siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh. Wrth arolygu medrau, dylai'r ffocws fod ar ba un a yw disgyblion yn meddu ar y medrau gofynnol mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh, ac ar ba mor dda y maent yn defnyddio'r medrau hyn yn briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Dylai arolygwyr farnu safonau mewn medrau ar sail tystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft o arsylwi disgyblion mewn gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion a thrafodaethau â disgyblion. Bydd arsylwi'n ofalus ar ddisgyblion mewn gwersi a siarad â disgyblion yn darparu tystiolaeth o'u medrau siarad a gwrando, eu medrau rhifedd a'u gallu i feddwl. Bydd craffu ar waith yn darparu tystiolaeth o ba mor dda y gall disgyblion ysgrifennu'n glir a deall yr hyn y maent yn ei ddarllen, pa mor dda y gallant ddefnyddio eu medrau rhifedd ar lefelau priodol mewn amrywiaeth o bynciau ac a ydynt yn caffael amrywiaeth ddefnyddiol o fedrau a gwybodaeth mewn TGCh.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae lefel medrau cyfathrebu a medrau meddwl uwch disgyblion yn cefnogi neu'n rhwystro'u cynnydd mewn rhyngweithio yn yr ystafell ddosbarth, gydag athrawon a chyda disgyblion eraill. Dylent ystyried pa mor

dda y mae disgyblion yn datblygu eu creadigrwydd a'u medrau corfforol, er enghraifft ar gyfer disgyblion iau trwy chwarae a dysgu gweithredol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan, a pha mor fentrus ydynt.

Nid yw'n ofynnol i ysgolion annibynnol drefnu darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig, oni bai bod yr ysgol yn derbyn cyllid Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ar gyfer plant dan bump oed.

Wrth lunio barn gyffredinol ar ddatblygiad disgyblion yn y Gymraeg, yn yr ysgolion hynny sy'n cynnwys darpariaeth Gymraeg yn y cwricwlwm, dylai arolygwyr ystyried beth mae'n rhesymol ei ddisgwyl, gan ystyried nodau'r ysgol, cefndir ieithyddol a chyd-destun yr ysgol a'r ardal y mae'n ei gwasanaethu.

Mae sawl ffactor i'w hystyried, sef:

- man cychwyn y disgyblion
- nodau polisi'r sefydliad
- y cynnydd a wna disgyblion mewn perthynas â'u man cychwyn

Dylai arolygwyr roi sylwadau ar gyfran y disgyblion sy'n ennill cymwysterau, lle bo'n briodol.

Mewn ysgolion sy'n addysgu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sylweddol, dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae disgyblion yn datblygu'u medrau echddygol manwl a bras, eu symudedd a'u medrau byw'n annibynnol. Dylent werthuso pa mor effeithiol mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol, gan gynnwys eu gallu i uniaethu â disgyblion eraill, staff ac ymwelwyr â'r ysgol. Dylent werthuso i ba raddau mae'r disgyblion yn datblygu'r medrau y mae arnynt eu hangen i'w paratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol.

## 2 Lles ac agweddau at ddysgu

### 2.1 Lles

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol yn yr ysgol. Dylent ystyried pa mor dda y maent yn tyfu i fod yn unigolion iach a hyderus, a deall, er enghraifft, sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet, gweithgarwch corfforol a lles emosiynol, gan gynnwys sut i gadw'u hunain yn ddiogel ar-lein. Dylent ystyried pa mor dda y mae disgyblion yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon yn eu bywydau eu hunain yn yr ysgol ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i ymgymryd â gweithgarwch corfforol, er enghraifft yn ystod gwersi, amser egwyl ac amser cinio a thrwy glybiau a gweithgareddau ar ôl yr ysgol.

Dylai arolygwyr ystyried yr ymatebion i'r holiaduron cyn-arolygiad gan ddysgwyr, rhieni a staff yn ofalus mewn perthynas ag ymddygiad disgyblion, a datblygu cwestiynau datblygol priodol, lle y bo'n briodol. Dylai arolygwyr ystyried tystiolaeth a ddaw o arsylwi disgyblion yn rhyngweithio mewn dosbarthiadau, yn ystod amser egwyl ac amser cinio, ac o gwmpas yr ysgol, ynghyd â thystiolaeth o drafodaethau ag unigolion a grwpiau.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion addysgol arbennig, yn barod i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain a chymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft fel aelodau o'r cyngor

ysgol, cyfeillion maes chwarae ac arweinwyr digidol. Dylent ystyried pa mor dda y mae pob un o'r disgyblion yn dangos hyder a gwydnwch yn eu bywydau, er enghraifft yn y ffordd y maent yn rhyngweithio â phobl newydd ac oedolion.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae disgyblion yn datblygu fel dinasyddion moesegol, gwybodus, er enghraifft trwy eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb, goddefgarwch, cynaliadwyedd a hawliau plant.

## 2.2 Agweddau at ddysgu

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae disgyblion yn datblygu'r agweddau a'r ymddygiadau allweddol a fydd yn eu helpu i ddysgu trwy gydol eu bywydau.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae disgyblion yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus, galluog ac annibynnol. Dylent ystyried pa mor dda y mae disgyblion yn ymroi i brofiadau a syniadau newydd, anghyfarwydd. Dylent farnu diddordeb disgyblion yn eu gwaith, eu gallu i gynnal eu canolbwyntio a pheidio â gadael i bethau dynnu eu sylw. Dylent ystyried pa mor barod y mae disgyblion i ymroi i dasgau a'u cwblhau. Dylent werthuso pa mor dda y mae disgyblion yn dyfalbarhau ac yn parhau'n benderfynol pan fyddant yn wynebu anawsterau neu'n ceisio atebion eraill pan fydd eu dull cyntaf o ddatrys problem yn aflwyddiannus. Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae disgyblion yn datblygu eu medrau cyflogadwyedd wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae disgyblion yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi ac a ydynt yn symud yn hwylus rhwng gwahanol wersi a gweithgareddau. Dylent ystyried pa mor dda y mae disgyblion yn gallu gweithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft yn annibynnol, mewn grwpiau bychain ac mewn dosbarthiadau cyfan. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae disgyblion yn dangos parch tuag at gyfraniadau pobl eraill, er enghraifft trwy ganiatáu i bobl eraill siarad neu fod yn bwyllog pan fydd pobl eraill yn anghytuno â nhw.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Dylent edrych ar ba mor dda mae disgyblion yn symud rhwng gweithgareddau a dosbarthiadau a pha mor dda y maent yn ymddwyn yn ystod gweithgareddau fel gwasanaethau ysgol gyfan. Dylent arsylwi a yw disgyblion yn ystyriol ac yn uniaethu â'i gilydd ac oedolion yn dda. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae disgyblion yn ymddwyn yn ystod amser cinio ac amser chwarae.

Wrth werthuso cyfranogiad mewn dysgu a'i fwynhau, dylai arolygwyr ystyried y dystiolaeth a ddaw o ddosbarthiadau, craffu ar waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion, arsylwi arnynt yn cymryd rhan mewn clybiau a gweithgareddau amser cinio ac ar ôl ysgol, ac ymddygiad disgyblion mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Wrth werthuso presenoldeb fel tystiolaeth o gyfranogiad disgyblion mewn dysgu, a'u hymwneud â dysgu, dylai arolygwyr adrodd trwy eithriad, h.y. pan fydd tuedd glir iawn o bresenoldeb gwan neu gadarn iawn neu ble mae wedi gwella'n sylweddol. Dylai arolygwyr ystyried y tueddiadau yng nghyfradd bresenoldeb gyffredinol yr ysgol a'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw amrywiadau nodedig rhwng grwpiau penodol o ddisgyblion ac eraill. Dylent gymharu cyfraddau presenoldeb â ffigurau cenedlaethol a rhai ysgolion tebyg. Fodd bynnag, dylai

arolygwyr ystyried ffactorau lliniarol arwyddocaol pan geir tystiolaeth gadarn i'w cefnogi. Er enghraifft, mewn perthynas ag ysgolion sy'n addysgu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sylweddol, gallai fod yn briodol ystyried p'un a yw disgyblion yn mynychu clinigau iechyd neu apwyntiadau ysbyty. Yn yr ysgolion hyn, dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae disgyblion sydd â hanes o bresenoldeb gwael yn eu hysgol bresennol neu flaenorol yn dangos presenoldeb gwell.

## 3 Addysgu a phrofiadau dysgu

### 3.1 Ansawdd yr addysgu

Nid oes rhaid i'r gwerthusiad o'r addysgu fod yn adran gyntaf y maes arolygu o reidrwydd oherwydd gallai arolygwyr ddechrau ag ansawdd y profiadau dysgu neu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau os bydd hyn yn gwneud eu canfyddiadau'n gliriach.

Wrth werthuso addysgu, dylai arolygwyr nodi nad oes templed sefydlog i athrawon ei ddilyn a gall athrawon ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau gydag amser. Yr ystyriaeth allweddol yw a yw'r addysgu yn llwyddo i ennyn diddordeb disgyblion a pha mor dda y mae'n datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i lefel briodol o uchel wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Dylent ystyried ansawdd cynllunio athrawon, a pha mor dda y mae eu cynllunio'n elwa o gael cynlluniau gwaith pwrpasol. Dylent ystyried y graddau y mae gan athrawon amcanion clir ar gyfer dysgu disgyblion ac y maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau i ennyn eu diddordeb a herio pob grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion addysgol arbennig, i gyflawni cystal ag y gallant. Dylent ystyried i ba raddau y maent yn gwneud eu dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol a difyr lle gall pob grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf a lleiaf abl, ddysgu'n gynhyrchiol.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae athrawon yn defnyddio amrywiol dechnegau holi i ymestyn a datblygu ymhellach ymatebion disgyblion, a chael amcan o'u dealltwriaeth. Dylent ystyried eglurder cyfarwyddiadau ac esboniadau athrawon a pha mor dda y mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ganlyniad. Dylent werthuso pa mor dda y mae'r athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion a ph'un a ydynt yn trin pob disgybl yn gyfartal gan ddangos parch priodol atynt. Dylai arolygwyr farnu pa mor llwyddiannus y mae athrawon yn defnyddio staff eraill i gefnogi dysgu'r disgyblion.

Mae'r ffocws ar asesu yn y maes arolygu hwn ar arfer yn yr ystafell ddosbarth yn bennaf.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r adborth llafar ac ysgrifenedig gan athrawon yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon yn cael amcan o ddealltwriaeth disgyblion trwy holi medrus a monitro dysgu'r disgyblion. Dylent ystyried pa mor dda mae athrawon yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad disgyblion eraill, lle y bo'n briodol. Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae athrawon yn dadansoddi deilliannau eu hasesiadau o ddisgyblion i lywio'r ffordd y maent yn cynllunio gwersi yn y dyfodol a'r

camau nesaf o ran dysgu'r disgyblion. Dylent ystyried pa mor dda y mae athrawon yn sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy.

Wrth lunio gwerthusiadau ar addysgu, dylai arolygwyr ddefnyddio ystod gyfan y dystiolaeth sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn debygol o gynnwys tystiolaeth o waith disgyblion, cynlluniau gwaith, cofnodion asesu, gwybodaeth am gynnydd disgyblion, trafodaethau â disgyblion a staff yn ogystal ag arsylwadau gwersi a theithiau dysgu gan aelodau o'r tîm arolygu. Ni ddylai arolygwyr ddyfarnu barn i wers neu athro unigol, ond dylent adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol.

### 3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm

Mae Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn datgan bod yn rhaid i ysgol lunio a gweithredu'n effeithiol bolisi ysgrifenedig ar y cwricwlwm, wedi'i gefnogi gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol. Dylai'r cwricwlwm ddarparu addysg amser llawn dan oruchwyliaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol, sy'n rhoi profiad i ddisgyblion yn y meysydd canlynol:

- ieithyddol
- mathemategol
- gwyddonol
- technolegol
- dynol a chymdeithasol
- corfforol ac esthetig
- addysg greadigol

Mae'r cwricwlwm yn cydymffurfio â'r gyfraith yn yr achosion canlynol:

- os yw'n darparu testun sy'n briodol i oedran a thueddiadau disgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny sydd â datganiad
- os yw'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion
- os yw'n darparu ar gyfer disgyblion i gaffael medrau mewn siarad a gwrando, llythrennedd a rhifedd
- os yw'n paratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn, gan gynnwys arweiniad priodol ar yrfaoedd i ddisgyblion sy'n derbyn addysg uwchradd
- pan fydd gan ddisgybl ddatganiad, os yw'n darparu addysg sy'n cyflawni ei ofynion
- pan fydd disgyblion yn yr ysgol sydd islaw neu uwchlaw'r oedran ysgol gorfodol, mae gan yr ysgol raglen o weithgareddau sy'n briodol i'w hanghenion
- os yw'n darparu cyfle i'r holl ddisgyblion ddysgu a gwneud cynnydd

Nid yw'n ofynnol i ysgolion annibynnol ddilyn y Cyfnod Sylfaen (CS) (oni bai bod yr ysgol yn derbyn cyllid Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ar gyfer plant dan bump oed) neu'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC), er y gallent wneud hynny'n ymarferol. Dylai arolygwyr ystyried unrhyw athroniaethau neu arddulliau posibl a allai ddylanwadu ar y modd y mae'r ysgol yn cynllunio'r cwricwlwm, er enghraifft mewn ysgolion ffydd.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae profiadau dysgu ar draws yr ysgol yn ysgogi ac yn herio ystod gyfan y disgyblion, fel eu bod yn ymroi'n llwyr i'w dysgu ac yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

Dylai arolygwyr ystyried dull strategol yr ysgol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a'r graddau y mae'n helpu disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus.

Dylai arolygwyr ymdrin ag arloesedd a dulliau hyblyg mewn ffordd gadarnhaol pan fydd ysgolion wedi ceisio bod yn greadigol a dychmygus wrth fwrw ymlaen â mentrau cwricwlaidd a ystyriwyd yn dda er budd disgyblion.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn rhoi ystod eang a phriodol o brofiadau i ddisgyblion er mwyn iddynt ddatblygu eu diddordeb a'u medrau ar draws ystod o bynciau a meysydd dysgu.

Dylai arolygwyr ystyried cynllunio gan athrawon, cynlluniau gwaith, gwaith disgyblion ac arsylwi gwaith mewn dosbarthiadau wrth lunio barn ar ansawdd y profiadau dysgu a ddarperir.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion, ni waeth pa fodelau cyflwyno penodol a ddewisir i drefnu a chyflwyno'r cwricwlwm.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion â medrau a dealltwriaeth uwch, y rhai ag anghenion addysgol arbennig a disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mewn ysgolion dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg, gallai hyn gynnwys darpariaeth i ddisgyblion heb fawr o ymwybyddiaeth flaenorol o'r iaith Gymraeg.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae athrawon a staff cymorth dysgu yn cyfrif yn llawn am anghenion dysgu disgyblion unigol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac wrth gyflwyno gwersi unigol a dilyniannau o wersi. Dylai arolygwyr nodi ymhle y mae gan ddisgyblion dargedau dysgu ac ystyried pa mor dda y mae athrawon a staff eraill yn cymryd sylw o'r rhain ac yn darparu rhaglen waith addas i helpu disgyblion i gyrraedd y targedau hyn. Dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd unrhyw gymorth a roddir i ddisgyblion yn yr ystafell ddosbarth neu mewn grwpiau wedi'u tynnu allan o wersi i ddatblygu eu medrau.

Dylai arolygwyr archwilio'r trefniadau ar gyfer grwpio disgyblion mewn setiau neu grwpiau gallu cymysg ac ystyried a yw'r trefniadau'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a phrofiadau disgyblion.

Dylai arolygwyr ystyried y ffyrdd y mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol yn llwyr, gan gynnwys cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru, ardal leol yr ysgol a, ble bo'n briodol, ei statws rhyngwladol neu'i statws ffydd.

Mewn ysgolion â disgyblion hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 2, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae staff yn cynllunio i ddisgyblion ddefnyddio'r awyr agored yn natblygiad eu dysgu a'u medrau.

Dylai arolygwyr ystyried natur a graddau'r dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cwricwlwm cynlluniedig, er enghraifft i gefnogi datblygiad dealltwriaeth disgyblion o destun, pwnc neu faes dysgu penodol. Mae llawer o ysgolion annibynnol yn cynllunio gweithgareddau ar ôl yr ysgol fel rhan o gynllunio'r cwricwlwm a bydd arolygwyr yn ystyried y cyfraniad a wna'r gweithgareddau hyn at y cwricwlwm yn gyffredinol. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd amser cinio ac ar ôl yr ysgol neu'n cynnal gwasanaethau, perfformiadau neu eisteddfodau i annog disgyblion i gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a hamdden.

### 3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau

Gan nad yw'n ofynnol i ysgolion annibynnol gynllunio ar gyfer y FfLlRh na'r FfCD, dylai arolygwyr ganolbwyntio ar b'un a yw'r cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar lefel briodol mewn gwersi ar draws y cwricwlwm.

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae trefniadau'r cwricwlwm yn sicrhau bod disgyblion yn caffael y medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh angenrheidiol (lle bo'n berthnasol) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Hefyd, dylai ehangder profiadau disgyblion ar draws y cwricwlwm roi cyfleoedd cynyddol, pwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh (lle bo'n berthnasol). Dylent edrych ar dystiolaeth mewn llyfrau disgyblion, ffolderi ar-lein ac mewn dosbarthiadau i ystyried y graddau y mae cynllunio yn helpu i gynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm.

Mewn ysgolion sy'n addysgu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sylweddol, dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae'r ysgol yn galluogi disgyblion i ddatblygu'u medrau echddygol manwl a bras, eu symudedd a'u medrau byw'n annibynnol. Dylent werthuso i ba raddau y mae'r ysgol yn eu galluogi i ddatblygu'r medrau y mae arnynt eu hangen ar gyfer bywyd yn y dyfodol.

Nid yw'n ofynnol i ysgolion annibynnol drefnu darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig, oni bai bod yr ysgol yn derbyn cyllid Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ar gyfer plant dan bump oed.

Pan fydd ysgol yn cynnwys darpariaeth Gymraeg yn ei chwricwlwm, gallai arolygwyr ystyried:

- priodoldeb polisi'r ysgol ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg
- pa mor dda y mae'r ysgol yn rhoi'r polisi ar waith
- dilyniant disgyblion rhwng cyfnodau allweddol
- llwyddiant yr ysgol yn annog disgyblion i ddilyn cymwysterau priodol yn Gymraeg

## 4 Gofal, cymorth ac arweiniad

### 4.1 Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn olrhain ac yn monitro cynnydd a lles disgyblion, gan gynnwys presenoldeb ac ymddygiad, wrth iddynt symud drwy'r

ysgol. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon i ystyried cynnydd a datblygiad grwpiau penodol, er enghraifft y disgyblion hynny y gallai eu hamgylchiadau olygu y gallent dangyflawni, neu'r disgyblion sy'n fwy abl. Bydd angen iddynt ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn nodi materion perthnasol ac yn ymateb yn briodol i ddeilliannau olrhain a monitro, er enghraifft trwy ddarparu cymorth a her briodol, defnyddio strategaethau ymyrryd, neu fentora neu annog unigolion neu grwpiau. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau unigol, a'u cynnydd o'u mannau cychwyn unigol. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r ysgol yn defnyddio partneriaethau ag eraill, er enghraifft ysgolion neu asiantaethau eraill, i ddarparu cymorth effeithiol i ddysgwyr.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol fel y gallant ymwneud â'r ysgol yn gadarnhaol ac elwa ar y cyfleoedd y mae'n eu cynnig.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni a bod ganddi ddulliau cyfathrebu effeithiol â nhw fel y gall rhieni gefnogi eu plant yn dda a chodi unrhyw faterion a allai effeithio ar ddysgu a lles eu plentyn. Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r ysgol yn mynd ati i helpu i ddatblygu gallu rhieni i gefnogi eu plant eu hunain. Er enghraifft, gallai'r ysgol ddarparu gwybodaeth am y cwricwlwm, arweiniad ar fanteision presenoldeb rheolaidd gan ddisgyblion, gweithdai i rieni ar sut i helpu eu plentyn i ddatblygu ei fedrau darllen a chymorth i deuluoedd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Dylai arolygwyr ystyried sampl o adroddiadau i rieni neu ofalwyr i wneud yn siŵr eu bod yn rhoi gwybodaeth briodol i rieni am gynnydd eu plentyn a sut gall eu plentyn wneud rhagor o gynnydd yn y dyfodol.

Pan na fydd ysgolion annibynnol wedi cael cymeradwyaeth ffurfiol i addysgu disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig, neu ble nad yw'r ysgol wedi cael cymeradwyaeth i ddarparu addysg ar gyfer anghenion penodol disgybl, dylai arolygwyr wneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi caniatâd, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan adran 347 Deddf Addysg (1996), i leoli disgybl yn yr ysgol.

### 4.2 Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol)

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae darpariaeth yr ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth i wneud dewisiadau o ran ffordd iach o fyw, er enghraifft mewn perthynas â bwyta ac yfed yn iach, camddefnyddio sylweddau, rhyw a pherthynas, diogelwch ar-lein ac ati. Dylai arolygwyr ystyried pa mor llwyddiannus y mae darpariaeth yr ysgol yn helpu disgyblion i ddeall effaith dewisiadau ffordd o fyw ac ymddygiadau ar eu hiechyd meddwl a'u hiechyd corfforol a'u lles yn awr ac yn y dyfodol.

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae darpariaeth yr ysgol yn helpu disgyblion, gan gynnwys y rheiny o wahanol grwpiau, i ymgymryd â chyfrifoldebau ac yn chwarae rhan lawn yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae darpariaeth yr ysgol yn paratoi disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion addysgol arbennig, i fod yn ddinasyddion

gweithredol, er enghraifft trwy wneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr ysgol. Dylent ystyried pa mor dda y mae trefniadau'r ysgol yn helpu disgyblion i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ar lefel yr ysgol, gan gynnwys y cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu, a sut, ac effeithiolrwydd grwpiau disgyblion, fel y cyngor ysgol neu bwyllgor elusennol. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae darpariaeth yr ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn ategu datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol pob disgybl, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn helpu paratoi pobl ifanc ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn, gan gynnwys addysg am yrfaoedd a byd gwaith, a phwysigrwydd presenoldeb rheolaidd.

Dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd yr arweiniad a'r cyngor diduedd a roddir i ddysgwyr, sy'n ymwneud â dewisiadau gyrfa yn y dyfodol, er enghraifft. Dylent ystyried cydlyniad ac effeithiolrwydd cyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer cymorth personol ac arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau sydd ar gael gan asiantaethau arbenigol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu.

Dylai arolygwyr fwrw golwg ar ba mor dda y mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn datblygu gwerthoedd goddefgarwch a pharch. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o aflonyddu, gwahaniaethu, bwlio ar sail hunaniaeth ac eithafiaeth. Dylent hefyd ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn rheoli ac yn ymateb i unrhyw achosion yn ymwneud â bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu. Dylent ystyried pa mor dda y mae trefniadau'r ysgol yn meithrin dull cadarnhaol o reoli ymddygiad disgyblion a diwylliant gwrthfwlio. Dylent ystyried i ba raddau y mae darpariaeth yr ysgol yn herio ystrydebau yn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau disgyblion, a pha mor dda y mae'n hybu hawliau dynol.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd, ac yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill yn lleol, ac fel aelodau o fyd eang ac amrywiol.

### 4.3 Diogelu

Bydd arolygwyr yn adrodd ar b'un a yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Pan fydd trefniadau'n destun pryder difrifol, dylai arolygwyr gynnwys argymhelliad yn yr adroddiad a bydd Estyn yn anfon llythyr lles i'r ysgol yn gofyn iddynt amlinellu sut y byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg(ion).

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae trefniadau diogelu'r ysgol yn sicrhau bod

yr holl blant yn cael eu hamddiffyn. Dylai trefniadau gynnwys nodi plant sydd mewn angen neu sy'n wynebu risg o niwed sylweddol, arferion recriwtio diogel a chael trefniadau priodol ar gyfer atgyfeiriadau amddiffyn plant. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gofynion a chanllawiau statudol penodol am y materion diogelu hyn a dylai fod gan ddarparwyr bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cydymffurfio â nhw.

Dylai arolygwyr ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer amddiffyn plant. Byddant yn edrych ar ba mor effeithiol yw ei threfniadau ar gyfer atal a mynd i'r afael â bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu . Dylai arolygwyr ystyried sut mae'r ysgol yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a oes gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer gwirio addasrwydd staff a phobl eraill sydd mewn cysylltiad â phlant, a bod yr ysgol yn cynnal cofnod o'r gwiriadau hyn. Dylai arolygwyr gadarnhau bod yr holl staff yn gwybod beth i'w wneud er mwyn ymateb i faterion amddiffyn plant a bod y swyddog arweiniol a'r llywodraethwr arweiniol dynodedig, a staff eraill lle y bo'n briodol, wedi cael hyfforddiant diogelu perthnasol. Dylai arolygwyr wirio a oes gan yr ysgol bolisïau, gweithdrefnau a threfniadau adrodd priodol mewn perthynas ag ymyriadau corfforol a thynnu allan o wersi. Bydd arolygwyr yn archwilio unrhyw ardaloedd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer tynnu allan o wersi.

Dylai arolygwyr adrodd ar achosion amlwg o dorri deddfwriaeth iechyd a diogelwch neu ddiogelu, yn enwedig o ran Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 o dan yr agwedd hon ar arolygu. Wrth ystyried materion diogelu, dylai arolygwyr ystyried diogelwch adeiladau a safle'r ysgol hefyd.

Pan fydd darpariaeth breswyl neu letya, bydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu unrhyw arolygydd arall a benodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 87A Deddf Plant 1989 i gynnal arolygiadau o ysgolion preswyl, yn asesu p'un a yw'r ysgol yn diogelu ac yn hyrwyddo'n foddhaol les y plant y mae llety wedi'i ddarparu neu'i drefnu ar eu cyfer trwy gyfeirio at y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl neu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl Arbennig.

Mewn lleoliadau preswyl a lletya, dylai arolygwyr gysylltu ag AGC, yn unol â'r protocol, i sicrhau bod yr agweddau hyn ar y ddarpariaeth yn cael eu harolygu a'u hadrodd. Dylent sylwadau hefyd ar ansawdd cyffredinol y profiad preswyl neu letya a'r cyfraniad a wna at brofiad addysgol disgyblion.

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

### 5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir a nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion disgyblion.

Dylai arolygwyr fyfyrio ar ba mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a'u hunain. Dylent ystyried pa

mor dda y maent yn datblygu tîm effeithiol ac ymgysylltiol o athrawon a staff cymorth. Dylent ystyried i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn modelu ac yn hybu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol a chydweithredu effeithiol rhwng staff a darparwyr eraill. Dylent ystyried pa mor dda ar bob lefel y mae staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau a pha mor dda y maent yn cydweithredu wrth ddatblygu blaenoriaethau strategol a gwella'r ysgol.

Dylai arolygwyr ystyried ystod eang o dystiolaeth pan fyddant yn gwerthuso ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, er enghraifft cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd diweddar, cyfweliadau â staff, cynlluniau gweithredu gwelliannau ac adroddiadau ar weithredu'r rhain, hunanwerthusiad diweddar gan arweinwyr a rheolwyr, a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad disgyblion.

Dylai arolygwyr edrych ar y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn cynnal darpariaeth ansawdd uchel neu'n gwella agweddau gwan ar y ddarpariaeth. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf a pha mor gyflym y maent yn cychwyn unrhyw gamau unioni.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr wedi sefydlu rhesymwaith clir a strategol ar gyfer y cwricwlwm o ran ei fanteision i ddisgyblion wrth eu paratoi i ddysgu trwy gydol eu bywydau a chwarae rhan lawn mewn cymdeithas. Dylent werthuso pa mor llwyddiannus y mae arweinwyr a rheolwyr o ran sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn rhannu nodweddion cadarnhaol y ddarpariaeth gyda staff yn yr ysgol a, lle bo'n briodol, yn cydweithredu ag ysgolion eraill yn y sector, neu'r tu hwnt, i gyflawni gwelliannau yn y system addysg yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Dylai arolygwyr ganolbwyntio ar ba mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio partneriaethau strategol a chydweithredu ag asiantaethau eraill i helpu i feithrin ei gallu i wella'n barhaus.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r perchennog a/neu gyrff goruchwylio eraill yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r perchennog a/neu gyrff goruchwylio eraill yn gyfarwydd â chryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu, a'r graddau y maent wedi cymryd rhan yn y gwaith i osod blaenoriaethau strategol yr ysgol. Dylent ystyried a oes cydbwysedd priodol rhwng cymorth a her yn y ffordd y mae'r perchennog a/neu gyrff goruchwylio eraill yn cyflawni ei rôl fel 'ffrind beirniadol'.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol, gan gynnwys mewn perthynas â'r ffordd y mae'n rheoli cwynion ac apeliadau gan rieni.

### 5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

Dylai arolygwyr werthuso pa mor gywir y mae arweinwyr a rheolwyr yn adnabod cryfderau a gwendidau'r ysgol. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn casglu a dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol o safonau a darpariaeth, gan gynnwys addysgu. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn cynnwys

amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys disgyblion a rhieni, wrth nodi ei chryfderau a'i gwendidau.

Dylai arolygwyr ystyried effaith prosesau cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda y mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd yn cysylltu â deilliannau gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn cefnogi blaenoriaethau trwy ddyrannu adnoddau yn briodol. Dylent werthuso i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr yn cynllunio amserlenni penodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb priodol am sicrhau gwelliant i aelodau staff.

Dylai arolygwyr ymchwilio i hanes yr ysgol o wneud gwelliannau a'r graddau y maent wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion, er enghraifft trwy welliannau i ansawdd yr addysgu. Lle y bo'n briodol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol wedi ymateb i argymhellion arolygiadau blaenorol Estyn neu argymhellion gan bartneriaid strategol, ac a yw camau gweithredu'r ysgol wedi arwain at welliannau.

## 5.3 Dysgu proffesiynol

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos i gefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cynorthwyo'r holl staff i ymroi'n weithgar i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol. Dylent ystyried y graddau y mae staff yn cymryd rhan yn effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol, gwerthuso a rheoli perfformiad. Dylai arolygwyr werthuso effaith arweinwyr yn y ffordd y maent yn rheoli perfformiad staff er mwyn helpu staff i wella'u harfer. Dylent hefyd farnu p'un a yw arweinwyr a rheolwyr yn mynd i'r afael â materion tanberfformio yn drylwyr ac yn uniongyrchol, lle bydd angen.

Dylent ystyried dysgu proffesiynol a wnaed gan staff, a'i effaith ar ddysgu disgyblion a'u harfer eu hunain. Dylent archwilio i ba raddau y mae staff wedi rhannu deilliannau dysgu proffesiynol gyda staff eraill. Dylent fwrw golwg ar ba mor dda y mae arweinwyr wedi amlygu arfer dda yn yr ysgol a sicrhau bod staff eraill yn gallu elwa ohoni. Hefyd, dylent ystyried pa mor dda y mae staff yn gweithio gydag ysgolion eraill, sefydliadau perthnasol a darparwyr dysgu proffesiynol i rannu a datblygu eu harfer broffesiynol.

## 5.4 Y defnydd ar adnoddau

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau'n effeithlon ac yn gymesur. Dylent ystyried y graddau y mae penderfyniadau gwariant yr ysgol a'i chynllunio ariannol bras yn cysylltu'n briodol â'i blaenoriaethau strategol a chynllunio'r ysgol ar gyfer gwella. O ran penderfyniadau gwariant, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn cydbwyso'i hanghenion tymor byr ochr yn ochr ag anghenion tymor hir disgyblion.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwybod beth yw costau rhaglenni a gweithgareddau presennol, yn eu hadolygu ac yn cwestiynu a ydynt yn gost-effeithiol.

Dylai arolygwyr ystyried a oes lefel briodol o staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno'r cwricwlwm arfaethedig yn effeithiol.

Dylai arolygwyr ystyried a yw'r ysgol yn defnyddio'i hamgylchedd dan do ac awyr agored yn effeithiol ac yn effeithlon. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r amgylchedd dysgu yn cefnogi neu'n rhwystro dysgu ac addysgu o ansawdd uchel, a pha mor dda y mae'n gwella lles corfforol a meddyliol disgyblion i'r eithaf.

Mae Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol gydymffurfio â Rheoliadau Addysg (Adeiladau Ysgol) 1999. Bydd arolygydd ychwanegol sydd â chymwysterau priodol yn ymuno â'r arolygiad i farnu p'un a yw'r ysgol yn bodloni'r safonau perthnasol.

## Sail dystiolaeth yr arolygiad

Bydd yr adroddiad yn cynnwys trosolwg bras o sail dystiolaeth yr arolygiad. Yn yr adran hon, bydd arolygwyr cofnodol yn crynhoi'r gweithgareddau y mae aelodau o'r tîm arolygu yn ymgymryd â nhw, a'r ffynonellau tystiolaeth y gwnaethant eu hystyried cyn, yn ystod ac ar ôl yr arolygiad, i sicrhau bod canfyddiadau'r arolygiad yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy.

## Ffocws thematig

Gallai Estyn ddewis nifer fach o themâu ychwanegol i ganolbwyntio arnynt bob blwyddyn. Bydd y themâu a ddewisir yn helpu Estyn i gasglu gwybodaeth am agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Bydd Estyn yn defnyddio'r wybodaeth i ategu ei waith cylch gwaith a llywio canfyddiadau Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd.

Pan fydd thema ychwanegol, bydd y tîm arolygu'n canolbwyntio ar un thema ychwanegol yn unig ar bob arolygiad. Ni fydd adran ar wahân o'r adroddiad na barn ar wahân ar y thema ychwanegol yn yr adroddiad cyhoeddedig.

Gallai'r tîm arolygu gasglu tystiolaeth ar gyfer y thema ychwanegol mewn ffyrdd amrywiol, yn dibynnu ar y thema a ddewisir. Gallai gynnwys holiadur neu gyfweliad ag aelod penodol o staff neu graffu ar ddogfennau neu waith disgyblion, neu gyfuniad o ddulliau. Y nod yw gwneud casglu tystiolaeth mor gymesur ac mor hylaw ag y bo modd i'r ysgol a'r tîm arolygu.

# Atodiad 1: Arweiniad ar y rheoliadau ar gyfer cofrestru i ysgolion annibynnol

## Cyflwyniad

Yn unol â Deddf Addysg 2002 mae'n ofynnol i bob ysgol annibynnol yng Nghymru gofrestru gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Fel amod cofrestru, rhaid i'r ysgolion hyn fodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Mae saith o Safonau sy'n cael eu hisrannu i'r rheoliadau a restrir yn y tabl isod. I fodloni Safon, rhaid i'r ysgol gydymffurfio â phob rheoliad ar gyfer y Safon honno. Nid oes graddau cydymffurfio gydag unrhyw un o'r rheoliadau. Dylai arolygwyr farnu a yw'r ysgol yn cydymffurfio ai peidio.

## Yr Arweiniad ar gyfer Arolygu Ysgolion Annibynnol a Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

Mae'r tabl yn dangos ymhle, yn yr arweiniad hwn, y bydd arolygwyr yn cael tystiolaeth i farnu cydymffurfio â'r rheoliadau ac o dan ba gwestiwn allweddol penodol yr adroddir yn fwyaf priodol am gydymffurfio.

| Safonau ysgolion annibynnol | | Arweiniad ar werthusiadau mewn arolygiadau ysgolion annibynnol | Dull adrodd |
|---|---|---|---|
| **Ansawdd yr addysg a ddarperir** | | | |
| 1.1 | Mae ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol yn bodloni'r safon os bodlonir y gofynion yn is-baragraffau (2) i (5). | | |
| 1-2 | Rhaid i'r ysgol lunio polisi ysgrifenedig ar y cwricwlwm, ei ategu â chynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, a'i weithredu'n effeithiol, a bydd yn darparu ar gyfer: | | |
| 1-2a | addysg dan oruchwyliaeth amser llawn i bob disgybl o oed ysgol gorfodol, sy'n rhoi profiad i ddisgyblion yn y meysydd canlynol: ieithyddol, mathemategol, gwyddonol, technolegol, dynol a chymdeithasol, addysg gorfforol, addysg esthetig a chreadigol; | 3.2; | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-2b | deunydd addysgol sy'n briodol i oedrannau a thueddfryd disgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny â datganiad; | 3.2; | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-2c | disgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando, llythrennedd a rhifedd; | 1.3; 3.3 | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-2d | os iaith heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg yw prif iaith yr addysgu, gwersi Cymraeg neu Saesneg ysgrifenedig a llafar, ac eithrio na fydd y gofyniad hwn yn gymwys i ysgol neu ran o ysgol sy'n darparu addysg i ddisgyblion sy'n preswylio yng Nghymru dros dro ac sy'n dilyn cwricwlwm gwlad arall; | 3.1; 3.2; 3.3; | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-2e | os bydd datganiad gan ddisgybl, addysg sy'n bodloni ei ofynion; | 1.2; 3.2; 4.1 | Gwerthusiad o dan MA4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1-2f | addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg iechyd, sy'n adlewyrchu nodau ac ethos yr ysgol; | 4.2; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 1-2g | arweiniad priodol ar yrfaoedd i ddisgyblion sy'n cael addysg uwchradd; | 3.2; 4.2; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 1-2h | os oes disgyblion gan yr ysgol sy'n iau neu'n hŷn na'r oed ysgol gorfodol, rhaglen o weithgareddau sy'n briodol i'w hanghenion; | 1.1; 1.3; 3.2; 3.3 | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-2i | y cyfle i bob disgybl ddysgu a gwneud cynnydd; a | 1.1; 1.2; 1.3; 3.2; 3.3; | Gwerthusiad o dan MA1 |
| 1-2j | paratoi disgyblion yn briodol ar gyfer y cyfleoedd, y cyfrifoldebau a'r profiadau sy'n rhan o fywyd oedolyn. | 1.1; 1.3; 2.1; 2.2; | Gwerthusiad o dan MA1 |
| 1-3 | Rhaid i'r addysgu yn yr ysgol: | | |
| 1-3a | alluogi disgyblion i gaffael gwybodaeth newydd a gwneud cynnydd yn ôl eu gallu er mwyn iddynt wella eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau yn y pynciau sy'n cael eu haddysgu; | 1.1; 3.1; | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-3b | meithrin yn y disgyblion ymdrech ddeallusol, gorfforol neu greadigol, diddordeb yn eu gwaith a'r gallu i feddwl a dysgu drostyn nhw'u hunain; | 1.1; 1.3; 3.1; | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-3c | cynnwys gwersi sydd wedi'u cynllunio'n dda, dulliau addysgu effeithiol, gweithgareddau addas a rheolaeth ddoeth ar amser dosbarth; | 3.1; | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-3d | dangos dealltwriaeth dda o dueddfrydau, anghenion a chyraeddiadau blaenorol y disgyblion a sicrhau y caiff y rhain eu hystyried wrth gynllunio gwersi; | 3.1; 4.1; | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-3e | dangos gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o'r pwnc sy'n cael ei addysgu; | 3.1; 5.3; | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-3f | defnyddio adnoddau yn y dosbarth yn effeithiol, a sicrhau bod digon ohonynt a'u bod yn foddhaol o ran eu hansawdd a'u hystod; | 3.1; | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-3g | dangos bod fframwaith i asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr, a defnyddio'r wybodaeth a geir o'r asesiadau hynny i gynllunio'r addysgu fel y gall disgyblion wneud cynnydd; ac | 3.1; 4.1; | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-3h | annog disgyblion i ymddwyn yn gyfrifol. | 2.1; 2.2; 3.1; 4.1; 4.2; | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-4 | Rhaid bod gan yr ysgol fframwaith ar gyfer gwerthuso perfformiad y disgyblion, trwy gyfeirio naill ai at nodau'r ysgol ei hun fel y'u darparwyd i rieni, neu at safonau cenedlaethol arferol, neu at y ddau. | 3.1; 4.1; | Gwerthusiad o dan MA3 |
| 1-5 | Rhaid i'r ysgol ddarparu addysg effeithiol i bob disgybl mewn dosbarth er mwyn iddynt wneud cynnydd, gan gynnwys disgyblion â datganiadau a'r rhai y mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. | 1.1; 1.2; 1.3; 3.1; 3.2; 3.3; | Gwerthusiad o dan MA1 |
| | | | |
| **Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion** | | | |
| 2 | Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn yr ysgol yn bodloni'r safon os yw'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n: | | |
| 2a | galluogi disgyblion i ddatblygu'u hunan-wybodaeth, eu hunanbarch a'u hunan-hyder; | 2.1; 2.2; 4.2; | Gwerthusiad o dan MA2 |
| 2b | galluogi disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg ac i barchu'r gyfraith; | 2.1; 2.2; 4.2; | Gwerthusiad o dan MA2 |

| | | |
|---|---|---|
| 2c annog disgyblion i fod yn gyfrifol am eu hymddygiad eu hunain, dangos blaengaredd a deall sut gallant gyfrannu at fywyd cymunedol; | 2.1; 2.2; 3.2; 4.2; 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 2d darparu gwybodaeth gyffredinol eang i ddisgyblion am sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus; | 3.2; 4.2; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 2e cynorthwyo disgyblion i werthfawrogi a pharchu eu diwylliant eu hunain a diwylliannau pobl eraill mewn ffordd sy'n hyrwyddo goddefgarwch a chytgord rhwng tradoddiadau diwylliannol gwahanol. | 3.2; 4.2; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| **Lles, iechyd a diogelwch y disgyblion** | | |
| 3-1 Mae lles, iechyd a diogelwch y disgyblion yn yr ysgol yn bodloni'r safon os bodlonir y gofynion yn is-baragraffau (2) i (9). | | |
| 3-2 Rhaid i'r ysgol lunio polisi ysgrifenedig a'i weithredu'n effeithiol er mwyn: | | |
| 1. 3-2a atal bwlio, drwy ystyried cylchlythyr 23/03 y Cynulliad Cenedlaethol 'Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio' a dogfen 'Parchu Eraill: Trosolwg Gwrth-fwlio': 050/2011; | 2.1; 2.2; 4.2; 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 3-2b diogelu a hybu lles y plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol, gan ystyried Cylchlythyr 158/2015 – Cadw Dysgwyr yn ddiogel: rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002';<br>Gweler hefyd Gylchlythyr 009/2014 Llywodraeth Cymru – Diogelu Plant mewn Addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill | 2.1; 4.2; 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 3-2c diogelu a hybu iechyd a diogelwch disgyblion sy'n ymgymryd â gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, drwy ystyried 'Ymweliadau Addysgol – Arweiniad diogelwch wrth ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth' 2008 – mae'r ddogfen hon yn ymgorffori ac yn disodli cylchlythyr blaenorol 2/99 y Cynulliad Cenedlaethol "Iechyd a Diogelwch Disgyblion ar Ymweliadau Ysgol: Arweiniad ar Arferion Da"; | 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 3-2d hyrwyddo ymddygiad da ymhlith y disgyblion a disgrifio'r camau sydd i'w cymryd os bydd disgybl yn camymddwyn; | 2.1; 4.2; 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 3-3 os bydd ysgol yn darparu llety byrddio, rhaid i'r ddarpariaeth honno ystyried Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Byrddio 2003 neu lle bo'n gymwys, Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl 2003. | 4.2; 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4<br><br>**Ar y cyd ag AGC** |
| 3-4 Rhaid i'r ysgol ystyried unrhyw arweiniad gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfrifoldebau a phwerau ysgolion o ran iechyd a diogelwch; | 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 3-5 Rhaid i'r ysgol fod â lefel foddhaol o ddiogelwch rhag tân, a nodir gan:<br>(a) asesiad risg yr ysgol o dan reoliad 3 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 i'r graddau y mae'n berthnasol i rwymedigaethau o dan Ran II Rheoliadau Rhagofalon Tân (Yn y Gwaith) 1997; ac<br>(b) unrhyw adroddiad gan yr Awdurdod Tân. | 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3-6 | Rhaid bod gan yr ysgol bolisi ysgrifenedig boddhaol ar Gymorth Cyntaf, a rhaid iddi ei weithredu'n effeithiol. | 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 3-7 | Rhaid trefnu bod staff yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu goruchwylio'n briodol ac yn effeithiol. | 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 3-8 | Rhaid i'r ysgol gadw cofnod ysgrifenedig o'r cosbau a roddwyd i ddisgyblion am droseddau disgyblaeth difrifol. | 2.1; 4.2; 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 3-9 | Rhaid i'r ysgol gadw cofrestru derbyniadau a chofrestr presenoldeb yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 2010. | 4.2; 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| | | | |
| **Addasrwydd perchnogion a staff** | | | |
| 4 | Mae addasrwydd perchnogion a staff yn yr ysgol yn bodloni'r safon: | | |
| 4a | yn achos perchennog sy'n unigolyn, os yw'r perchennog wedi gwneud cais am dystysgrif cofnod troseddol briodol a bod y cais hwnnw wedi'i gydlofnodi gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion Rhan V Deddf yr Heddlu 1997; | 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 4aa | yn achos perchennog sy'n gorfforaeth, yn fusnes yn yr Alban neu'n gorff o bersonau, os yw'r unigolyn cyfrifol wedi gwneud cais am dystysgrif cofnod troseddol briodol a bod y cais hwnnw wedi'i gydlofnodi gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion Rhan V Deddf yr Heddlu 1997; | 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 4b | yn achos perchennog sy'n gorfforaeth, yn fusnes yn yr Alban neu'n gorff o bersonau, os yw'r perchennog yn sicrhau bod tystysgrif cofnod troseddol briodol ar gael mewn perthynas â phob aelod o'r gorfforaeth, y busnes neu'r corff, os yw'r ddau amod canlynol yn gymwys:<br>(i) caiff yr aelod ei drin fel aelod at ddibenion paragraff 2 yr atodlen i Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 (aelodau sy'n dal llai na 5% o gyfalaf cyfranddaliadau cwmni i'w diystyru); ac<br>(ii) mae'r aelod yn unigolyn y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi tystysgrif cofnod troseddol mewn perthynas ag ef/hi o dan adran 113A Deddf yr Heddlu 1997 mewn ymateb i gais a wnaed yn briodol am dystysgrif o'r fath; | 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 4bb | cyn penodi unrhyw aelod o staff i weithio yn yr ysgol, pan fo'r darpar aelod o staff yn unigolyn y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi tystysgrif cofnod troseddol mewn perthynas ag ef/hi o dan adran 113A Deddf yr Heddlu 1997, rhaid i'r perchennog sicrhau:<br>(i) bod yr unigolyn wedi gwneud cais am dystysgrif cofnod troseddol briodol; a<br>(ii) bod yr unigolyn yn trefnu bod y dystysgrif ar gael i'r perchennog. | 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |

| | | |
|---|---|---|
| 4c os bydd aelodau'r staff, cyn cadarnhau eu penodiad, yn cael eu gwirio er mwyn cadarnhau eu hunaniaeth, ffitrwydd meddygol, hanes cyflogaeth flaenorol, geirdaon cymeriad, ac os yw'n briodol, cymwysterau a geirdaon proffesiynol, a rhaid i'r wybodaeth honno gael ei hystyried wrth benderfynu ynghylch cadarnhau penodiad ai peidio. Mae cylchlythyr 34/02 y Cynulliad Cenedlaethol "Amddiffyn Plant*:* Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg" yn rhoi cyngor ar arfer orau o ran gwiriadau cyn penodi;<br>Gweler hefyd Gylchlythyr 158/2015: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002; | 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 4d os bydd aelodau staff, pan fyddant yn gofalu am, yn hyfforddi, yn goruchwylio neu â gofal am blant mewn llety byrddio, yn cydymffurfio â Safon 38 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Byrddio 2003 neu pan fydd yn berthnasol, Safon 27 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl Arbennig 2003; | 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4<br><br>Ar y cyd ag AGC |
| 4e os nad yw'r perchennog nac unrhyw aelod o staff yn gwneud gwaith, nac yn bwriadu gwneud gwaith, yn groes i gyfarwyddyd o dan adran 142(1) Deddf 2002; ac | 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 4f mae unrhyw wladolyn tramor sy'n gweithio yn yr ysgol neu at ddibenion yr ysgol dan reolaeth y gwiriadau a amlinellir yn arweiniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru "Amddiffyn Plant*:* Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg" (cylchlythyr 34/02).<br>Gweler hefyd Gylchlythyr 158/2015: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002; | 4.3; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| | | |
| **Tir ac adeiladau a llety byrddio** | | |
| 5 Mae tir ac adeiladau a llety byrddio yn yr ysgol yn bodloni'r safon: | | |
| 5a os yw'r cyflenwad dŵr yn bodloni gofynion Rheoliadau 1999; | 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5b os oes system ddraenio ddigonol at ddibenion hylendid a gwaredu dŵr gwastraff a dŵr wyneb; | 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5c os yw pob strwythur sy'n dal pwysau yn foddhaol ac yn bodloni Rheoliadau 1999; | 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5d os oes gan yr ysgol drefniadau digonol o ran diogelwch ar ei thir ac yn ei hadeiladau; | 4.3; 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 5e os yw unrhyw dir neu adeiladau, a ddefnyddir at ddiben arall heblaw cynnal yr ysgol, wedi eu trefnu i sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles y disgyblion wedi eu diogelu ac i sicrhau na amherir ar eu haddysg gan ddefnyddwyr eraill; | 4.3; 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5f | os yw adeiladau'r ysgol yn darparu lloches resymol rhag glaw, eira, gwynt a lleithder o'r ddaear; | 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5g | os oes mynediad digonol fel bod modd i bob disgybl, yn enwedig y rhai ag anghenion arbennig, ymadael â'r ysgol yn ddiogel; | 4.3; 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5h | os yw mynediad i'r ysgol yn galluogi i bob disgybl, gan gynnwys y rhai ag anghenion arbennig, fynd i mewn i'r ysgol ac ymadael yn ddiogel ac yn gyfforddus; | 4.3; 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5i | os nad yw'r tir a'r adeiladau wedi'u eu condemnio gan yr Awdurdod Iechyd Amgylcheddol; | 4.3; 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5j | o ran nifer, oed ac anghenion (gan gynnwys unrhyw anghenion arbennig) y disgyblion, os yw'r ystafelloedd dosbarth yn briodol o ran maint i ganiatáu addysgu effeithiol ac nad ydynt yn peryglu iechyd a diogelwch; | 4.3; 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5k | os oes digon o ystafelloedd ymolchi i'r staff a'r disgyblion, gan gynnwys cyfleusterau i ddisgyblion ag anghenion arbennig, gan roi ystyriaeth i Reoliadau 1999; | 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5l | os oes cyfleusterau priodol i ddisgyblion sy'n sâl yn unol â Rheoliadau 1999; | 4.3; 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5m | lle gweinir bwyd a diod, os oes cyflesuterau digonol ar gyfer paratoi, gweini a bwyta bwyd yn hylan; | 4.3; 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5n | os yw ystafelloedd dosbarth a rhannau eraill o'r ysgol yn cael eu cadw'n daclus, yn lân ac yn hylan; | 4.3; 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5o | os yw'r ynysu rhag sŵn a'r acwsteg yn galluogi addysgu a chyfathrebu effeithiol; | 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5p | os yw'r goleuo, y gwresogi a'r awyru yn yr ystafelloedd dosbarth a rhannau eraill o'r ysgol yn foddhaol yn unol â Rheoliadau 1999; | 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5q | os yw'r gwaith addurno o safon foddhaol ac wedi'i gynnal a'i gadw yn ddigonol; | 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5r | os yw'r dodrefn a'r ffitiadau wedi eu dylunio'n briodol ar gyfer oedran ac anghenion pob disgybl (gan gynnwys unrhyw anghenion arbennig) sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol; | 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5s | os oes lloriau priodol a'u bod mewn cyflwr da; | 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5t | os oes trefniadau priodol ar gyfer darparu lle yn yr awyr agored i'r disgyblion chwarae yn ddiogel; | 4.3; 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 5u | lle y darperir llety byrddio, os yw'n ystyried Safonau 40-52 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Byrddio 2003 neu pan fydd yn berthnasol, Safonau 23-26 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl Arbennig 2003; ac | 4.3; | Gwerthusiad o dan MA5<br><br>**Ar y cyd ag AGC** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5v | os yw'r tir a'r adeiladau yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Cyfnodau Rhagnodedig ar gyfer Hygyrchedd, Strategaethau a Chynlluniau Ysgolion) (Cymru) 2003.<br>Gweler hefyd Ran 6, Adran 88, Atodlen 10 (Hygyrchedd i Ddisygblion Anabl) Deddf Cydraddoldeb 2010 | 3.2; 4.1; 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| **Darparu gwybodaeth** | | | |
| 6-1 | Mae'r ysgol yn bodloni'r safon o ran darparu gwybodaeth os bodlonir y gofynion yn is-baragraffau (2) i (9). | | |
| 6.2 | Yn amodol ar is-baragraff (10), rhaid i'r ysgol ddarparu i rieni disgyblion a darpar ddisgyblion, ac os gwneir cais i'r Prif Arolygydd, i'r Cynulliad Cenedlaethol, neu i gorff sydd wedi ei gymeradwyo o dan adran 163(10(b) Deddf 2002 : | | |
| 6-2a | cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn yr ysgol, ac enw'r pennaeth; | 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-2b | naill ai –<br>(i) pan fydd y perchennog yn unigolyn, ei enw llawn, ei gyfeiriad preswyl arferol a chyfeiriad e-bost priodol a rhif ffôn; neu<br>(ii) pan fydd y perchennog yn gorfforaeth, yn fusnes yn yr Alban neu'n gorff o bersonau, cyfeiriad a rhif ffôn ei swyddfa gofrestredig neu ei brif swyddfa; | 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-2c | os oes gan yr ysgol gorff llywodraethol, enw llawn, cyfeiriad preswyl arferol a rhif ffôn Cadeirydd y corff hwnnw; | 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-2d | datganiad o ethos (gan gynnwys unrhyw ethos crefyddol) yr ysgol, a'i nodau; | 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-2e | manylion polisi a threfniadau'r ysgol ar gyfer derbyniadau, disgyblaeth a gwaharddiadau; | 4.2; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-2f | manylion y ddarpariaeth o ran addysg a lles disgyblion sydd â datganiadau a disgyblion y mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt; | 4.1; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-2g | manylion y polisïau (cwricwlwm) a baratowyd o dan baragraff 1(2) yr Atodlen hon; | 3.2; 3.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-2h | manylion y polisïau (atal bwlio, diogelu, iechyd a diogelwch, ymddygiad) a baratowyd o dan baragraff 3(2) yr Atodlen hon; | 2.1; 4.2; 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-2i | manylion perfformiad academaidd, gan gynnwys canlyniadau unrhyw arholiadau cyhoeddus; | 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-2j | manylion y drefn gwynion a amlinellir yn unol â pharagraff 7 yr Atodlen hon, a nifer y cwynion a gofrestrwyd o dan y drefn ffurfiol yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol; a | 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-2k | nifer y staff a gyflogir yn yr ysgol, gan gynnwys staff dros dro, a chrynodeb o'u cymwysterau. | 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-3 | Yn dilyn arolygiad o dan adran 163 (1) Deddf 2002, rhaid i'r ysgol anfon y canlynol at rieni pob disgybl cofrestredig, erbyn dyddiad a bennir gan y corff a gynhaliodd yr arolygiad: | 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |

| | | |
|---|---|---|
| (a) yr adroddiad cryno a baratowyd gan y corff hwnnw; neu<br>(b) os nad oes adroddiad cryno wedi'i baratoi, yr adroddiad llawn. | | |
| 6-4 Os yw'r adroddiad cryno wedi'i anfon yn unol ag is-baragraff (3)(a), rhaid i'r ysgol wneud trefniadau i rieni gael gweld yr adroddiad llawn os gwneir cais. | 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-5 Rhaid i'r ysgol ddarparu adroddiad ysgrifenedig blynyddol i rieni ar gynnydd pob plentyn cofrestredig a'i gyrhaeddiad yn y prif feysydd pwnc a addysgir, ac eithrio nid oes angen anfon unrhyw adroddiad at riant sydd wedi cytuno fel arall gyda'r ysgol. | 4.1; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA4 |
| 2. 6-6 Rhaid i'r ysgol ddarparu i unrhyw gorff sy'n cynnal arolygiad o dan adran 163 Deddf 2002 –<br>(a) unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol mewn cysylltiad ag arolygiad ac sydd ei hangen at ddibenion yr arolygiad; a<br>(b) chaniatâd i weld y gofrestr dderbyniadau, ac unrhyw gofrestr bresenoldeb, a gedwir yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 2010. | 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-7 Os yw disgybl sy'n cael ei ariannu yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan awdurdod lleol wedi'i gofrestru yn yr ysgol, rhaid cyflwyno cyfrif blynyddol wedi'i archwilio o'r incwm a dderbyniwyd a'r gwariant a wnaed gan yr ysgol i'r awdurdod lleol ac ar gais i'r Cynulliad Cenedlaethol. | 5.1; 5.4; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-8 Os oes disgybl â datganiad wedi'i gofrestru yn yr ysgol, rhaid i'r ysgol roi i'r awdurdod lleol cyfrifol y wybodaeth y gellir yn rhesymol ofyn amdani at ddibenion adolygiad blynyddol o'r datganiad. | 4.1; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-9 Rhaid darparu copi o'r asesiad risg y cyfeirir ato ym mharagraff 3(5)(a) yr Atodlen ar gais i'r Cynulliad Cenedlaethol. | 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 6-10 Mewn perthynas â pharagraffau (g) i (k) o is-baragraff (2), ar yr amod bod yr ysgol yn sicrhau bod rhieni disgyblion a darpar ddisgyblion yn ymwybodol bod y wybodaeth honno ar gael, dim ond ar gais y mae angen ei darparu iddynt. | 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| **Cwynion** | | |
| 7 Mae'r ffordd y mae'r ysgol yn ymdrin â chwynion yn bodloni'r safon os oes ganddi drefn gwyno sy'n: | | |
| 7a ysgrifenedig; | 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 7b ar gael ar gais i rieni disgyblion a darpar ddisgyblion yn yr ysgol; | 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 7c gosod graddfeydd amser clir ar gyfer rheoli cwyn; | 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 7d cynnig cyfle i gŵyn gael ei gwneud a'i hystyried yn anffurfiol; | 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 7e os nad yw'r rhieni yn fodlon â'r ymateb a wnaed yn unol â pharagraff (d) neu os ydynt yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol, sefydlu gweithdrefn i'r gŵyn gael ei gwneud yn ysgrifenedig; | 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7f | os nad yw'r rhieni yn fodlon â'r ymateb i'r gŵyn a wnaed yn unol â pharagraff (e), darparu ar gyfer cynnal gwrandawiad gerbron panel a benodwyd gan neu ar ran y perchennog ac sy'n cynnwys o leiaf tri o bobl nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r materion a nodir yn y gŵyn; | 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 7g | amodi, pan fydd cwyn yn cael gwrandawiad gerbron panel, y bydd un person yn annibynnol ar y rhai sy'n rheoli a rhedeg yr ysgol; | 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 7h | caniatáu i'r rhieni fod yn bresennol mewn gwrandawiad gan y panel, a chael mynd â rhywun gyda nhw; | 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 7i | darparu i'r panel lunio ei ganfyddiadau ac argymhellion, ac amodi bod yr achwynydd, y perchennog a'r pennaeth, a phan fo'n berthnasol y sawl y gwnaed cwyn amdano, yn cael copi yr un o unrhyw ganfyddiadau ac argymhellion; | 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 7j | darparu ar gyfer cadw cofnodion ysgrifenedig am bob cwyn, gan gynnwys a ydynt wedi'u datrys yn y cam cychwynnol neu'n mynd ymlaen i wrandawiad gan banel; | 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 7k | yn darparu, yn amodol ar baragraff 6(2)(j) yr Atodlen hon, bod gohebiaeth, datganiadau a chofnodion o gwynion i'w cadw'n gyfrinachol ac eithrio pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol neu gorff sy'n cynnal arolygiad o dan adran 163 Deddf 2002 yn gwneud cais am gael gweld unrhyw ddogfennau'n ymwneud â'r gŵyn; ac | 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5 |
| 7l | os bydd yr ysgol yn darparu llety byrddio, cydymffurfio â Safon 5 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Byrddio, neu pan fydd yn berthnasol, Safon 4 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl. | 4.3; 5.1; | Gwerthusiad o dan MA5<br><br>**Ar y cyd ag AGC** |

Bydd arolygwyr yn defnyddio'r arweiniad hwn ar gyfer arolygu ysgolion annibynnol, gyda'i feysydd arolygu a'i ofynion adrodd, sy'n pwysleisio ansawdd a deilliannau yn yr addysg a ddarperir gan ysgolion annibynnol. Rhaid iddynt hefyd edrych yn fanwl ar y safonau a'u rheoliadau cysylltiedig. Rhaid i'r adroddiad nodi'n glir pa un o'r rheoliadau, os o gwbl, y mae'r ysgol yn methu ei bodloni. Rhaid i arolygwyr gadw mewn cof mai'r safonau gofynnol yw'r rheoliadau ar gyfer pennu a yw'r ysgol i barhau i fod yn gofrestredig.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd sail dystiolaeth gadarn, fel sy'n ofynnol yn yr arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion annibynnol, yn pennu i ba raddau y bodlonir y safonau.

**Gweithdrefn**

Yr arolygydd cofnodol fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am farnu a yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Dylai'r ACof ddirprwyo cyfrifoldeb am gasglu tystiolaeth i'r arolygwyr tîm eraill, fel y bônt yn fwyaf priodol.

Mae nifer o'r rheoliadau a gynhwysir yn Safon 5 yn rheoliadau i sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Addysg (Tir ac Adeiladau Ysgol) 1999. Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn unol â Rhan 10 Pennod 1 paragraff 163 Deddf Addysg 2002, wedi cymeradwyo arolygydd adeiladu â chymwysterau addas i ymgymryd â gwaith arolygu Safon 5.

Dylai'r arolygydd cofnodol roi'r rhannau priodol o Restr Wirio Reoleiddiol Rheoliadau'r Safonau ar gyfer y meysydd arolygu perthnasol i bob arolygydd ychwanegol. Yng nghyfarfod safoni'r tîm, mae'n rhaid i'r tîm ddod i gytundeb cyffredinol ynglŷn ag a yw'r ysgol yn bodloni pob un o'r rheoliadau ar gyfer pob safon, neu rai ohonynt yn unig.

Dylai'r arolygydd cofnodol gydgrynhoi canfyddiadau'r tîm i'r brif restr wirio. Mae'r cofnod hwn, ynghyd â chrynodeb o'r rhesymau penodol dros fethiant ysgol i gydymffurfio ag unrhyw reoliad penodol, y dylid ei gofnodi ar y ffurflen farnau adrodd, yn rhan o sail dystiolaeth yr arolygiad.

**Cydymffurfio â'r Rheoliadau ar gyfer Cofrestru**

Rhaid i'r adran Cydymffurfio â'r Rheoliadau ar gyfer Cofrestru o'r adroddiad gynnwys trosolwg o'r graddau y mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer pob un o'r Safonau Cofrestru wedi'u rhifo. Os na fodlonir un neu fwy o'r gofynion rheoleiddio, dylid nodi'r rhain yn yr adran hon. Os nad yw'r ysgol yn bodloni unrhyw ofynion rheoleiddio, dylai'r adroddiad ddatgan pa reoliadau penodol y mae angen i'r ysgol fynd i'r afael â nhw er mwyn bodloni'r safonau cofrestru.

Dylai'r adroddiad amlinellu canfyddiadau'r tîm ar gyfer pob un o'r safonau, fel y dangosir:

Naill ai

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

neu

- Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Os nad yw ysgol yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau ar gyfer y safon hon, dylai'r adroddiad gynnwys y datganiad canlynol:

Er bod yr ysgol yn bodloni'r rhan fwyaf/bron pob un o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 dylai'r ysgol:

- ddefnyddio geiriad rheoliad penodol, ac yna nodi rhif y rheoliad ee [3(4)]